

ECO'r Wyddfa

Rhif: 456
Gorffennaf / Awst 2017
Pris: 70c

Ar ras i Bencampwriaeth Byd yn yr Eidal



Mewn rasys pentref (gweler hanes rasys Deiniolen a Llanrug ar y tudalennau chwaraeon) y cychwynnodd rhedwyr gorau'r byd. Dyna fu hanes Gareth Hughes a Mathew Roberts hefyd, a chafodd y ddau o'r fro y cyfle i gystadlu gyda'r goreuon tra'n cynrychioli tim Prydain yn yr Eidal yn ddiweddar.

Cynhaliwyd Pencampwriaeth y Byd (Rhedeg Llwybrau) ym mhentref bychan Bradia Prataglia, gogledd Tuscany yn ystod ail benwythnos Mehefin. Roedd hon yn cael ei chysidro'n ras fer; dim

ond 50 cilomedr o redeg (pedair milltir yn fwy na marathon!), a dringo 3,000 metr (tair gwaith uchder yr Wyddfa). Rhedwyr Sbaen a Ffrainc ddaeth i'r brig yn rasys y merched a'r dynion, ond mae'r math hwn o rasio llwybrau coedwigoedd a llwybrau mynyddig wedi bodoli ar y cyfandir ymhell cyn iddynt ddod yn boblogaidd yma. Er hynny, gorffennodd Gareth Hughes yn safle 33 allan o bron i 250 o redwyr mewn amser o 5 awr. Dioddef yn y gwres fu hanes Mathew, a dim cystal hwyl arni y tro hwn. Ond profiad arbennig i'r ddau, a phenwythnos i'w thrysori.



ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 456
Gorffennaf / Awst 2017
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911
SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, S Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
 Marged Rhys
 marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
 Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
 01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, S Y Ddôl,
 Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
 Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Medi	20-Awst	01-Medi	Llanrug
Hydref	17-Medi	29-Medi	Penisarwaun
Tachwedd	15-Hyd	27-Hyd	Llanberis

LLYTHYRAU

CAIS ELUSEN AM FAGIAU AC ATEGOLION I'W GWERTHU AR FAES EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN

Oes gennych Gucci, Burberry neu Radley llychlyd yn llechu yn y drôr yr rydych yn chwilio am gartref da iddynt?

Eleni bydd Achub y Plant yn gwerthu bagiau, ategolion, gemwaith a theis dynion ar ein stondin ar faes Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Hoffem wneud apêl i'ch darllenwyr i'w holi'n garedig i gyfrannu unrhyw eitem y gallwn eu gwerthu ar y stondin. Croesawir unrhyw roddion o safon uchel ac sydd mewn cyflwr da er mwyn codi arian at waith yr elusen yma yng Nghymru, a thramor.


Mae Achub y Plant yn gweithio mewn dros 120 o wledydd drwy'r byd. Yma yng Nghymru, rydym yn cefnogi plant a'u teuluoedd yn rhai o'n hardaloedd tlotaf ac wedi helpu yn agos i 9,800 o blant drwy ein rhaglen datblygiad plentyn, Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae! ac wedi cefnogi bron i 4,000 o blant drwy ein rhaglenni Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd a Chysylltu Teuluoedd. Rydym hefyd yn cefnogi rhieni a gofawyr i helpu plant gyda'u darllen a sgiliau sylfaenol eraill yn yr ysgol ac mae ein rhaglen Cymer Ofal yn helpu i gynyddu gwydnwch plant mewn amser o argyfwng.

Trefnir y stondin eleni gan Gangen Ynys Môn Achub y Plant ac yn ogystal â gwerthu rhoddion ail-law ar y stondin gydol yr wythnos yn yr Eisteddfod cynhelir Arwerthiant Enwogion ar y dydd Mercher yng nghwmni'r arwerthwr adnabyddus Dafydd Hardy. Dyma gyfle unigryw i Eisteddfodwyr lwcus fachu bag a gariwyd gan Katherine Jenkins; mwclis a wisgwyd gan yr actores Siân Phillips, tei sydd wedi camu ar lwyfannau operâu mwyaf y byd am wddf Bryn Terfel a mwy o roddion gan enwogion fel Dafydd Iwan, Shan Cothi, aelodau cast Pobol y Cwm a Rownd a Rownd, a llawer mwy.

Gofynnwn yn garedig i chi gyfrannu unrhyw roddion erbyn 30ain o Fehefin a gellir trefnu casgliadau drwy gysylltu ag Alison Wood, Cadeirydd Cangen Ynys Môn Achub y Plant drwy ffonio 07766 116 114 neu ffonio keninandalisonwood@talk21.com

Gyda diolch
 Eurgain Haf

Rheolwr Cyfryngau a Chyfathrebu Achub y Plant - Cymru



Achub y Plant
BAGIAU
GEMWAITH
ATEGOLION
TEIS DYNION

Mae'r haf ar ein gwartha',
 Mae'n amser clirio'r cypyrdda!
 Oes gemwaith, teis a bagia'
 Yn llechu yn eich droria'?

Os nad ydynt mwyach at eich dant
 Beth am eu rhoi i Achub y Plant?
 I godi pres at elusen fawr ei sôn -
 Ein nod yw eu gwerthu yn Eisteddfod Môn!

I drefnu casgliadau, cysylltwch ag Alison Wood, Cangen Achub y Plant Ynys Môn ar 07766 116114 / kevinandalisonwood@talk21.com
Dyddiad cau derbyn rhoddion - 30/06/2017
 savethechildren.org.uk

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am Ieuan Ellis Jones (fferyllydd), Erw'r Coed, Llanberis, ar ei ben-blwydd yn 100 oed ar yr 17eg o Awst, gan Judith, Martyn a Ceri; Eifion Griffith, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£10: Meirion, Gareth, Anwen a'r teulu - er cof am Nellie Wyn Jones, Rhosgadfan/Llanberis gynt; Er cof am Michael Orrock, Penisarwaun, Rhianwen Jones, Deiniolen, Margaret Ellen, Hafan, Porth Gogledd, Deiniolen, John Llewelyn Williams, Pen y Golwg, Deiniolen.

£6: Di-enw, Brynrefail.

£5: Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, Waunfawr.

CLWB CINIO ARFON



Daeth y tymor i ben gydag ymweliad â gwinllan Pant Du ar gyrion Talysarn, Dyffryn Nantlle. Â lliwiau'r dyffryn ar eu gorau cawsom ein tywys hyd y perllanau a'r winllan. Dangoswyd y gwahanol fathau o blanhigion grawnwin ac afalau a gaiff eu tyfu yno. Yna, pam yr oedd rhai mathau yn fwy addas i'r amgylchedd leol. Roedd y coed afalau cynhenid yn gweddu'n dda.

Ar wahan I'r gwin a'r seidr a gynhyrchir, fe botelir dŵr hefyd. Cawsom ein tywys at y 'ffynnon' gynhyrchiol. O grombil a chraig y dyffryn llifai'r dŵr oer, llesol drwy beipiau i'r wyneb. Cawsom

stori darganfod y dŵr croyw, a'i ddarganfod fel yr oedd y tyrchwy'r ar fin rhoi gorau i'r chwilio.

Wedi'r arddangos cawsom flasau'r cynnyrch dros bryd o fwyd blasus.

Bu'n dymor llwyddiannus eleni gyda nifer dda yn mynychu yr amrywiol ddarlithoedd/sgyrsiau yn y Caban ar nos Wener cyntaf pob mis. Ymlaen felly i dymor arall mis Medi. Mae'r gwahoddiad i unrhyw aelod newydd mor gynnes ag erioed.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Ymosodiadau gan derfysgwyr yn ninasoedd Manceinion a Llundain; digwyddiadau sydd ymhell o'n profiadau ni yma ym mro'r "Eco". Ond mae'r ffaith fod cymaint o drigolion yr ardal hon, yn enwedig yr ifanc, yn mynychu cyngherddau adloniadol ym Manceinion yn dod a'r broblem - a'r perygl - yn llawer nes adref.

- Silff rhew yng Ngorllewin Antarctic a elwir yn LarsenC gyda chrac enfawr ynddi, ac yn bygwth torri'n rhydd o'r llen iâ a chreu 'iceberg' o dros 190,000 milltir sgwar; un o'r rhai mwyaf erioed i'w cofnodi. Effaith cynhesu byd-eang

- a hynny pan wrthododd yr Arlywydd Trump gydnabod Cytundeb Paris ar effeithiau newid hinsawdd. China yn cadarnhau y byddai'r wlad yn cadw at y cytundeb. Arweinyddion Ewrop yn anfon llythyr hallt o gondemniad i Trump ond Theresa May yn gwrthod ei arwyddo. Nicaragua a Syria yw'r unig wledydd eraill sydd heb arwyddo'r cytundeb.

- Achos o gam-wario anghyfreithlon yn erbyn Aelod Seneddol South Thanet yn Etholiad 2015. UKIP yn chwerau eu hymateb oherwydd i'r blaid fethu a chipio'r sedd yn yr etholiad hwnnw. Craig MacKinley yn cadw'r sedd yn yr etholiad hwn, ond yn parhau i wynebu'r posibilrwydd o flwyddyn o garchar os caiff yr achos ei brofi.

- Elusen 'Plantlife' yn cynnal arolwg ar adnabyddiaeth o flodau gwyllt. Mwy na hanner ieuenctid rhwng 16 a 24 oed yn methu adnabod Bwtsias y Gog, a dim ond 4% ohonynt yn adnabod meillion. Beth ddigwyddodd i "am dro natur" ers talwm yn ein hysgolion?

- I goroni'r cyfan cyrhaeddodd hyrddi-gyrddi chwil yr Etholiad ei phenllanw. Ac mae'r dadansoddwyr gwleidyddol yn parhau i geisio dadansoddi'r canlyniadau. Toriaid yr Alban yn cadw'r Llywodraeth mewn mwyafrif. Y Llywodraeth, yn parhau dan arweiniad "dead woman walking" May chwedl George Osborne yn ceisio rhyw fath o gytundeb a'r DUP yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cael mwyafrif yn Nhy'r Cyffredin. Effaith Corbyn yn trydaneiddio llaweroedd i bleidleisio i'r Blaid Lafur, ond rhai'n parhau i amau cefnogaeth Llafur Cymru iddo. Plaid Cymru o fewn trwch blewyn i gollu Arfon, ond yn ennill Ceredigion. Y Blaid Ryddfrydol Ddemocrataidd yn diflannu o fap gwleidyddol Cymru. Canlyniadau anhygoel o annealladwy mewn llawer i etholaeth. Yr unig sicrwydd yw fod pleidleisiau UKIP bron wedi peidio a bod a'u harweinydd eisoes wedi ymddiswyddo. Amser yn unig a ddengys pa mor ansefydlog fydd teyrnasiad Theresa ac Arlene, ac efallai y daw'r hyrddi-gyrddi yn ôl eto i'n diddanu cyn diwedd y flwyddyn!

Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
 13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Brecwast Mawr Cymorth Cristnogol



Ar fore Sul wythnos Cymorth Cristnogol cafodd rhieni, neiniau a theidiau plant Ysgol Sul Capel y Rhos ynghyd ag aelodau o'r gynulleidfa wahoddiad i frechwast yn y Ffestri. Athrawon yr Ysgol Sul a'r plant fu'n gyfrifol am y trefnu, y paratoi a'r gweini, a chasglwyd dros £100 yn ystod y bore. Marc Roberts oedd y cogydd, ac yr oedd canmoliaeth arbennig i'w baps bacwn, sosej ac wy. Doedd waffyls a chrempogau'r merched ddim yn ddrwg chwaith! Braff oedd cael cymdeithasu yng ngardd y capel ar fore heulog.

Merched y Wawr Llanrug yn noddï Tim Falcon Force



Yn sgil llwyddiant y tîm yma o ferched blwyddyn 10 yn y gystadleuaeth 'F1 mewn ysgolion' byddant yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli Cymru yn y rownd derfynol yn Malaysia yn Hydref 2017. Oherwydd hyn mae Tîm Falcon Force wedi bod yn chwilio am noddwyr a chyfranwyr ar gyfer eu taith i'r Dwyrain Pell. Diolch o galon i aelodau Merched y Wawr Llanrug am eu cyfraniad o £100 i'r achos.

Te Gardd

Yn ystod y mis, ac er gwaethaf cawod drom o law ddiwedd y bore, cafwyd te gardd mewn heulwen yn Bron y Nant, Pontrhyallt i godi arian tuag at Eglwys Llanrug. Gyda diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y pnaun unwaith eto eleni. Gwnaed elw o £300.



Te Penblwydd



Mae Merched y Wawr yn dathlu eu pen-blwydd yn 50 oed eleni. Paratowyd te prynhawn gan gangen Llanrug a daeth criw da i gefnogi'r fenter. Plantos bach y Cylch Meithrin oedd y cwsmeriaid cyntaf ac fe ddaeth Menna Williams a set o lestri te bach aur i'w

dangos. Cafwyd gwledd a danteithion blasus. Yna bu Margaret Parry, ein llywydd, ac Eryl Roberts yn cyflwyno sic i'r Cylch Meithrin - yr elw wnaed o'r prynhawn.

Parhad LLANRUG



Enillwyr clwb 100 pèl droed Llanrug

Mis Ebrill: 1af: Garth Hughes £40 (107); 2il: Ken Evans £20 (76); 3ydd: Bryn Williams £10 (216).

Mis Mai: 1af: Dylan Williams £40 (144); 2il: Sam Jones £20 (23); 3ydd: Daniel Parry £10 (57).

Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant mis Mehefin: 1. Meryl Green; 2. Pat Larsen.

Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Diolchiadau Mrs Nellie Wyn Jones, Rhosgadfan. Dymuna Meirwen, Gareth, Anwen a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl a charedig, drwy ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau. Diolch am yr holl ofal caredig a gafodd yn ystod ei gwaeledd.

Diolch hefyd i'r Parchedigion Gwenda Richards a Megan Williams am wasanaeth angladdol teimladwy ac urddasol ar Sadwrn y Pasg ac i Gwynfor a Jane (Llanberis) am y trefniadau gofalus a thrylwyr. Diolch am y rhoddion hael o £1,200 a dderbyniwyd er cof ac i'w rannu'n gyfartal rhwng Ambiwylans Awyr Cymru a Meddygfa Hafan Iechyd Caernarfon.

Diolch Dymuna Mai ddiolch i Gwyn a Llinos, teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, arian a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn. Diolch o galon i bawb.

Babi Newydd Llongyfarchiadau mawr i Owain a Donna, Pant Tirion, ar enedigaeth eu mab bach, Macsen. Mae Anna wedi gwirioni â'i brawd bach a Nain a Taid, Brian a Sharon, yr un modd. Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Mary Roberts, Bedw Gwynion, a Richard Ellis Owen, Bryn Moelyn, ar dathlu eu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Cofion Mae Marian McGuinness, Ardwyn, Ffordd yr Orsaf (Lôn Groes), wedi bod yn glaf yn yr ysbyty ers wythnosau bellach ond deallwn ei bod yn gwella yn araf. Cofion gorau, Marian, brysiwch adref.

Profedigaethau Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Mr a Mrs Dai Roberts, Dwyrhyd, Glanffynnon, yn eu profedigaeth, y ddau wedi colli brawd a chwaer. Cofion atoch.

Yr un modd, cofiwn at Guto Edwards, Ty'n Rhos, Ffordd yr Orsaf, sydd wedi colli ei dad oedd yn un o Lanuwchllyn.

Wedi gwaeledd hir a chreulon bu farw Sheila Davies, mam annwyl Meryl Green a'i brawd, Meic. Dymunwn estyn ein cydymdeimlad dwys â Meryl, Frank, Rhian, Ieuan a Siân a'u teuluoedd. Roedd yn fam, nain a hen nain annwyl a bydd colled fawr i chi i gyd.

Ffair Haf yr Ysgol Gynradd – Diolchiadau Hoffai Ffrindiau'r Ysgol ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth yn ystod eu wythnos o weithgareddau yn arwain at y Ffair Haf. Diolch i Siân Owen am drefnu'r Helfa Drysor, bu 26 o geir o gwmpas yr ardal yn chwilio am gliwiau gan orffen y noson, gyda bwyd, yn y Padarn, Llanberis. Ar y nos Fercher daeth 100 o blant i redeg yn ein ras hwyl, gyda Ceri Hickey (blwyddyn 6) yn croesi'r llinell yn 1af, Cian Newell (Blwyddyn 5) yn 2il; Dion Peris (blwyddyn 5) yn 3ydd. Mentrodd 39 o redwyr yn y ras 5k gyda Tom Roberts yn gorffen 1af; Jason Parry yn 2il a Gwion Roberts yn 3ydd. Jennifer Charlton oedd y ferch gyntaf. Diolch i Rhian Thomas am drefnu ras lwyddiannus iawn. Unwaith eto cafwyd neuadd lawn i fwynhau'r Bingo ar y nos Iau.

Bu'n rhaid newid trefniadau y Ffair Haf oherwydd y tywydd a symud i Ysgol Brynrefail. Mae'n diolch ni yn fawr i'r Pennaeth,

Ysgol Gynradd

Mae'r ysgol wedi bod yn brysur yn ystod y pythefnos diwethaf yn trefnu wythnos o weithgareddau yn arwain at Ffair.

Siarter Iaith a Teithiau Iach Sustrans

Bu rhai o'r plant yn gyfrifol am stondinau fel rhan o bwyllgorau gwahanol yn yr ysgol.

Ras Llanrug

Cynhaliwyd ras Llanrug am y tro cyntaf ers blynyddoedd nos Fercher 7fed o Fehefin ac er i'r tywydd droi fe ddaeth 150 i redeg y ras hwyl a'r ras 5k.

Helfa Drysor a Bingo

Daeth llawer o'r pentrefi gefnogi y ddau weithgaredd llwyddiannus yma.

Mabolgampau yr Urdd

Mae sawl plentyn a thimau rhedeg ras gyfnewid wedi cael llwyddiant yn Nhreborth ar ddechrau'r mis. Bu i rai lwyddo i gyrraedd y rownd derfynol a fydd yn cael ei chynnal ddiwedd Mehefin ym Mharc Eirias.

Ffair

Er gwaethaf y tywydd a newid safle fe fu y Ffair yn llwyddiant ysgubol. Roedd ffrindiau'r ysgol wedi gweithio'n ddiflino yn ystod yr wythnos ac mae ein diolch iddynt.



Mr Arwyn Williams, ac Iwan Machno am fod mor gymwynasgar. Cafwyd pnawn hynod o lwyddiannus gyda'r ddwy gampfa'n llawn bwrlwm.

Pen-blwydd Arbennig Dymuniadau gorau i Mrs Megan Williams, Bron Eryri, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ganol mis Gorffennaf ac i Mrs Gwenda Thomas, Coedlys, fydd yn 70 oed ganol mis Awst.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mr Dilwyn Rogers, Stad Minffordd, sydd wedi colli ei dad yn sydyn iawn yn Gellifor.

Cymorth Cristnogol Dymuna Carys Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb fu'n casglu o gwmpas y pentref. Diolch i bawb dychwelodd yr amlen fach goch. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £1,323.63.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mehefin 13eg, aeth 29 o'r aelodau ar eu trip blynyddol i Storiell yng nghanol Bangor, tua 200 medr o orsaf bysiau'r ddinas. Croesawyd ni yn wresog iawn gan Shirley Owen, Swyddog Dysg, a mwynhawyd sgwrs ddifyr ac addysgiadol ganddi am Storiell. Palas yr Esgob oedd y adeilad ond heddiw mae'n ofod cyfoes mewn adeilad hynafol yn dyddio o 1500. Dyma oedd cartref Esgob Bangor a'i deulu. Tywyswyd ni drwy'r Oriellau Celf sy'n arddangos gwaith gan artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Yn yr Oriell Hanes cyflwynir themâu ar fywyd a gwaith a chysylltiadau Gwynedd gyda'r byd. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys model o Bont Thomas Telford, y 'Welsh Not', Coron Brenin Enlli a chleddyf Rhufeinig o Segontium.

Cynhelir 'Diwrnod o Hwyl' – diwrnod gwych i'r teulu gael gwneud a gweld. Mae siop yma hefyd yn gwerthu gemwaith, serameg, llyfrau, eitemau i'r cartref, cardiau a llawer mwy. Dyma



y lle i brynu anrhegion.

Wedi taith hynod addysgiadol o gwmpas yr arddangosfeydd aeth pawb i 'Caffi Seibiant' i fwynhau bwffe – i gyd yn gynnyrch lleol. Dyma fan yn sicr sy'n mynnu ail ymweliad. Mae Storiell ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn o 11.00 tan 5.00. Mae llefydd parcio a thoiledau i'r anabl ar gael ac mae croeso i g?n tywys.

Yn ystod y bwffe manteisiodd ein Llywydd, Margaret, ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r Pwyllgor, ac yn arbennig i Eryl am ei chynhaliaeth. Diolchwyd i Margaret am ei llywyddiaeth rhadlon ac am ei heffeithiolrwydd drwy'r flwyddyn a dymunwyd yn dda i'r Pwyllgor newydd ac i Bethanne brofiadol fel Llywydd 2017-18.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Meryl Green a'r teulu ar golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl. Llongyfarchwyd Ann Lloyd ar ennill gyda'i cherdyn 'Dathlu'r Aur' ac i Olwen ar greu trefniant blodau cywrain dros ben. Roedd pawb yn falch o groesawu Megan ar y trip ar ôl triniaeth i'w chlun – Hip Hip Hwre, Megan! Diolchwyd i bawb a ddaeth i'r Sefydliad Coffa ar Fai 24ain i Ddathlu'r Aur. Llauer o ddiolch i'r aelodau am drefnu gwledd o ddanteithion arbennig at ddant pawb. Hyfryd oedd cael presenoldeb aelodau ifanc yr Ysgol Feithrin – i gyd wedi'u gwisgo mewn siacedi melyn ac wedi creu het o liwiau'r Mudiad ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Dymunir diolch i'r staff am ymuno yn y dathlu ac am y cerdyn diolch bendigedig.

Dydd Iau, Mehefin 22ain trefnwyd ceir i fynd i'r Parc, ger y Bala, i weld Paneli'r Dathlu am 4.00 o'r gloch. Bydd Merched y wawr, Rhanbarth Arfon yn Dathlu'r Aur yng Ngwesty'r Celt ar Sadwrn, Gorffennaf 8fed, am 12.30.

Diolchwyd i bawb am y gefnogaeth i Ffair yr Anabl. Dymunwyd yn dda i Mary Roberts ar ei Llywyddiaeth Rhanbarth Arfon.

Dymunir hysbysebu Cyngerdd Cylch Meithrin dydd Mercher,

Gorffennaf 12fed, am 1.30 gyda phaned a theisen i ddilyn.

Llongyferchir Eryl ac Islwyn ar ddatlu eu Priodas Aur. Cytunwyd i roi rhodd ariannol i Eisteddfod Bentref Penisarwaun a gynhelir nos Fercher, Gorffennaf 5ed yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir Penwythnos Preswyl y Mudiad yn Aberystwyth i Ddathlu'r Aur ar Medi 8fed-10fed. Cost yw £240, enwau cyn Gorffennaf 14 os gwelwch yn dda.

Enillydd Iwcur y Raffl – potyn o flodau lliw aur oedd Ann Ifans. Wedi noson hynod o ddifyr, addysgiadol a chymdeithasol, diolchwyd i Nan am y trefniadau trylwyr fel arfer. Dymunir gwyliau dedwydd i bawb ac edrychir ymlaen at ail gyfarfod ar nos Fawrth, Medi 12fed, yn y Sefydliad Coffa. Bydd croeso mawr i aelodau newydd.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod nos Fawrth, Mehefin 27ain am 7.00 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa i drefnu Rhaglen 2017-18.

Capel y Rhos – Oedfaon Gorffennaf

2: Oedfa a Chymun yng ngofal y Gweinidog

9: Aelodau yn cyflwyno gwaith y Parch Ddr H. John Hughes

16: Parch Marcus Robinson, y Gweinidog

23: Parch Cledwyn Williams

30: Parch Elwyn Jones

Awst

6: Parch Gwynfor Williams

13: Parch Eifion Williams

20: Parch Elfyn Richards

27: Parch Harri Parri

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291



Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Eisteddfod Pen y Bont ar Ogwr Bu imi fwynhau Eisteddfod yr Urdd yn ardderchog eleni. Cefais lawer o fwyniant yn ei gwyllo ar S4C a chredaf iddynt ddod â'r eisteddfod yn fyw iawn inni, nid wyf yn meddwl inni golli fawr ddim. Diolch yn fawr iawn i S4C am eu darllediad ardderchog.

Daeth tipyn o wobrau i ardal yr Eco ac os na fu llwyddiant eleni, peidiwch digalonni, ymlaen â chwi a thrio eto y flwyddyn nesaf.

Mae yn rhaid rhoi canmoliaeth mawr i Ysgol Brynrefail. Da iawn chi fel ysgol, mae yn edrych bod gwaith mawr wedi cael ei wneud gennych. Yr oedd yn braf clywed enw'r hen ysgol yn dod i fyny mor aml dydd Iau a dydd Gwener a da oedd gweld y gwobrau yn dod i ardal yr Eco. Canmoliaeth fawr ichwi fel ysgol a gobeithio y byddwch yn dal ati. Ardderchog iawn, Ysgol Brynrefail.

Arholiadau Rwyf yn sicr fod y plant yn falch o weld diwedd yr arholiadau. Yn awr mae yn rhaid disgwyl am y canlyniadau, amser poenus iawn, gan obeithio eu bod yn hapus efo'u canlyniadau fel y byddant yn gallu mynd ymlaen a beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud. Os na fyddwch yn llwyddiannus y tro yma, gwell lwc y tro nesaf. Peidiwch digalonni 'Dyfal donc a dyr y garreg'. Dymuniadau gorau ichi a phob bendith i'r blynyddoedd a ddel.

Tymor y Gwyliau Mae tymor y gwyliau yn nesau a llawer yn edrych ymlaen am gael gwyliau allan o'r wlad. Fe fydd y rhifyn yma o'r Eco yn un cyn y gwyliau felly ga i ddymuno gwyliau hapus i bawb a gobeithio am dywydd braf. Efo canlyniadau yr arholiadau o'ch ôl byddwch yn gallu mwynhau, gan obeithio am dipyn o dywydd a'r haul yn tywynnu.

Felly y mis nesaf fydd dim Eco tan ddiwedd Awst neu ddechrau Medi. Gwyliau hapus a dedwydd i bawb gan obeithio na fydd yr haul yn cadw yn ddiarth.

Pen-blwydd Hapus Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 102 ar yr 11eg o'r mis yma. Bu iddi fwynhau ei diwrnod yng nghwmni ei theulu. Mae Mrs Morris yn edrych yn ardderchog ac i weld yn mwynhau ei bywyd. Mae Eirwyn a Marsli yn gofalu yn ardderchog amdani a hefyd mae swyddogion Plas Garnedd yn ofalus iawn ohoni. Yn awr, Mrs Morris, am y 103. Gobeithio y bydd yr iechyd yn cadw ac y gallwch fwynhau eich bywyd. Mrs Morris, cofion mawr atoch a phob bendith ac iechyd i chwi i'r blynyddoedd a ddel. Gwyn eich byd a chariad mawr.

Cofion annwyl iawn at Mrs Priscilla Williams, Wylfa, a fydd yn 103 yn mis Hydref ac sydd ar hyn o bryd yn reit dda. Yn codi am naw y bore ac yn ôl i'r gwely am naw yr hwyr.

Cofion hefyd at Mr John E. Morris, Rhiwen, fydd yn 104 ddau ddiwrnod cyn y Nadolig. Mae yntau yn edrych yn dda iawn ac yn cael mynd am dro efo Gwyn, y mab, bob wythnos ac yn edrych ymlaen.

Pob iechyd a bendith i'r tri ohonoch a chofion annwyl yr ardal atoch.

Cofiwch na fydd Eco'r Wyddfa mis nesaf.

Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Llwyddiant Llongyfarchiadau i Malan Hughes, Cefn Gof, ddaeth yn ail mewn cystadleuaeth i Ensemble, Bl 7, 8a 9 ym Mhrifwyl yr Urdd ym Mhenybont, wedi chwarae darn Scott Joplin yn swynol iawn.

Llongyfarchiadau i saith o blant y pentref oedd yn cystadlu mewn bandiau pres yn yr Eisteddfod. Dafydd, Bryn Mair, Elan, Martha, Malan, Siôn Dafydd a Siôn Ynyr, yn chwythu i Fand Pres Ysgol Syr Hugh Owen ddaeth yn fuddugol ym Mhenybont. Hefyd roedd Luned, Bryn Mair, yn aelod o Fand Pres Ysgol Bontnewydd.

Da iawn chi i gyd.

Graddio Llongyfarchiadau i Peter Roscoe, Perthi, Rhos Bach, ar ennill gradd o Brifysgol Bangor mewn 'Development Leadership' ac hefyd i'w fab, Jac, sydd wedi cael llwyddiant ym myd chwarae golff. Beth am y stori'n llawn, Jac?

Gwasanaethau y Capel

Ar Ddydd Sul, Gorff 2 am 2 o'r gloch: Y Parch Marcus Robinson, a chynhelir Cyfarfod Swyddogion i ddilyn am 3 o'r gloch

Ar Ddydd Sul, Gorff 16 eg am 2 o'r gloch: gwasanaethir gan Mr Richard Ll. Jones.

Yn ystod mis Awst ni chynhelir gwasanaethau yn y capel, a rhydd i bawb addoli ble bynnag arall y byddwch ar ymweliad neu wyliau.

Clwb Merched Daeth rhaglen y flwyddyn i ben ar Fai 25ain gyda ymweliad â Storiel ym Mangor. Diolch i Shirley Owen aeth â ni o gwmpas yr amgueddfa ac egluro yn ddiddorol iawn gefndir a hanes llawer o'r creiriau sydd yn Storiel. Cawsom swper blasus i orffen y noson a phawb mewn hwyliau da ar noson braf o Fai. Diolchodd y llywydd, Rhiannon Roberts, i aelodau y pwyllgor fu mor ddiwyd trwy gydol y flwyddyn a dymunodd yn dda i swyddogion 2017-18.

Tynfa Caeathro Gan fod yr Eco yn mynd i'w wely yn gynnar y mis yma, bydd canlyniadau y dynfa yn ymddangos yn rhifyn mis Medi. Bob lwc i'r cyfranwyr dros yr haf.

Llwyddiant pêl-droed Llongyfarchiadau i Malan Hughes, Cefn Gof am fod yn rhan o dîm pêl-droed merched Ysgol Syr Hugh Owen fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Ysgolion Cymru gan guro Ysgol Glan Taf yn y ffeinal yng Nghroesoswallt. Y sgôr oedd 1-1 ond YSHO enillodd ar giciau cosb. Da iawn ti, Malan, wedi cael mis prysur iawn!!

Casglu sbwriel Daeth nifer dda i dacluso y pentref ar fore Sul, Mai 21, ac yn eu plith Begw, Anna, Tomos, Eldra a Deio. Da iawn chi blant, yn gosod esiamp i ni i gyd.

Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Festri Eglwys Santes Fair bnawn Mawrth, 16 Mai. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr oedd yng ngofal Dorothy. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth amryw o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd fis Ebrill a chafwyd adroddiad gan Auriel am y te prynhawn yn Feed my Lambs. Dydd Mercher, 23 Mai, cafwyd Sêl Enfys yn y Gadeirlan. I orffen ein cyfarfodydd am y tymor mae cinio wedi ei drefnu yn Yr Harbwr.

Mae cyfarfod wedi ei drefnu ym Mhenrhyndeudraeth ar 23 Mehefin. Mae dwy bererindod wedi eu trefnu o amgylch eglwysi y ddeoniaeth. Y gyntaf ar dydd Mawrth, 4 Gorffennaf, ar Ynys Môn i ddiweddu yn Llangefni a'r ail ddydd Iau, 13 Gorffennaf, yn ardal Meirionnydd i ddiweddu ym Machynlleth. Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu wrth fwynhau paned a theisen. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel a diolchwyd iddi gan Dorothy. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Llongyfarchiadau i John, 13 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed. Hefyd llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Ysgol Brynrefail ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.

Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n lwyddiannus yn eu arholiadau yn yr ysgol neu yn y coleg a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn dechrau mewn coleg yn nhymor yr hydref a'r rhai sydd ar ddechrau mewn swyddi am y tro cyntaf.

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i amryw sydd heb fod yn dda yn eu cartrefi a rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Partneriaeth yr Wyddfa yn lansio ymgynghoriad

Lansiwyd ymgynghoriad ar y ffordd ymlaen i fynydd uchaf Cymru ar 15fed o Fehefin

Yr Wyddfa yw mynydd mwyaf poblogaidd gwledydd Prydain gyda channoedd o filoedd yn dringo'r copa bob blwyddyn ac mae'r dasg o reoli'r tirwedd a gwarchod y bywyd gwylt a sicrhau fod pobl yn cael mynediad i'r mynydd yn her barhaus i'r Bartneriaeth.

Mae Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yn nodi sut y bydd aelodau'r Bartneriaeth yn cyflawni eu gwaith yn ardal yr Wyddfa mewn ffordd gydlynol. Mae'n tynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd gan y Bartneriaeth hyd yn hyn, yn rhoi gwybod i bobl am yr hyn y mae'r Bartneriaeth yn ceisio ei gyflawni a bydd yn cael ei ddefnyddio i fynd ar drywydd mwy o fuddsoddiad yn yr ardal er mwyn cyflawni gweledigaeth y Bartneriaeth.

Helen Pye, Rheolwr Partneriaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n esbonio ymhellach, "Mae safbwyntiau a syniadau pobl yn hynod o bwysig i ni a dyna pam ein bod yn darparu'r cyfle hwn i bobl a mudiadau roi eu hadborth ar y Cynllun drafft. Mae sicrhau mewnbwn gan eraill mor bwysig i ni fedru cynhyrchu'r Cynllun gorau posib ar gyfer yr ardal, a bydd y cynllun yn sgil hyn yn esblygu ac yn cael ei addasu fel y bo'n briodol."

Ymgynghoriad ar lein

Roedd ymgynghoriad ar-lein yn dechrau ar y 15fed o Fehefin ar y wefan a bydd yn parhau tan Orffennaf 7fed. Mae sesiwn galw heibio hefyd wedi cael ei drefnu ar gyfer y 4ydd o Orffennaf rhwng 2:00 a 7.30yh yn y Mynydd Gwefru, Llanberis.

**SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON,
CANGEN CAERNARFON A'R CYLCH**

Cynhaliwyd bore coffi yn yr Institiwt Caernarfon i godi arian tuag at yr elusen uchod. Bu llawer yn bresennol, yn ogystal â Maer a Maeres Caernarfon, y Cynghorydd Ioan Thomas a Mrs Sian Thomas. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a dymunwyd gwellhad buan i'r Cadeirydd, Dr Tudor Ellis sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Casglwyd dros £570 a diolchwyd i'r canlynol am eu rhodd tuag at y raffl; Rheilffordd Ucheldir Cymru; Canolfan Garddio Fron Goch, Gwesty'r Celt, Morrisons, Tesco, Ivors (Cigydd) ac aelodau'r pwyllgor.

TUDALEN YR IFANC



'A Lot of Waffle' ddim yn malu awyr!

Wedi bod yn mwynhau mewn digwyddiadau mawr yr ardal dros y misoedd diwethaf? Wel, efallai eich bod wedi manteisio ar ddanteithion melys busnes lleol! Mae Faye Edge, sy'n wreiddiol o Lanrug a rwan yn byw yn Dinorwig, yn rhedeg busnes 'A Lot of Waffle' mewn digwyddiadau. Dyma'r Eco'n mynd i holi mwy am y busnes:

"Dwi wedi bod eisiau cael fan arlwygo ers i mi fod yn teithio yn Awstralia a pan ddes i i ychydig o arian ar ôl damwain, penderfynais i ei fuddsoddi mewn i fusnes. Wrth edrych ar faniau arlwygo, gwelais i'r un yma 'A Lot of Waffle' a disgynnodd popeth mewn i'w le. Roedd hyn fis Medi diwethaf.

Ar y dechrau roeddwn eisiau gwneud a gwerthu coffi gan fy mod i'n hoffi arfer cael fy nghoffi cynta'r bore o draler yn Sydney, ac yn caru'r syniad o gael un fy hun. Ond mae 'na lawer o gystadleuaeth gyda chynnig coffi yn unig, felly

dewisais wafflau gan fy mod eisiau cynnig pwddin gwahanol a newydd nad oedd neb arall yn yr ardal yn ei wneud.

Rwyf bob amser wedi gweithio ym maes arlwygo o oedran cynnar. Roedd fy rhieni yn rhedeg y Glyntwrog yn Llanrug am gyfnod a bwytai a thafarndai eraill yn yr ardal. Felly mae'n rhywbeth dwi wrth fy modd yn ei wneud. Dwi hefyd yn caru bod yn fos arnaf fi fy hun.

Mae gen i ddigwyddiadau wedi' trefnu bron bob penwythnos, gan gynnwys Carnifal Llangefni carnifal, Ras yr Wyddfa, Marchnad Cynnyrch Lleol Porthmadog, Ffair Fwyd Biwmares, a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Môn i enwi dim ond rhai."

Gallwch ddarllen mwy am ei hanes ar wefan alotofwaffle.com

Pwy a wyr, efallai byddwn yn bwyta waffl arbennig 'Yr Eco' yn fuan!



Diwrnod Hwyl GISDA

Bob blwyddyn mae'r elusen GISDA, sy'n darparu cefnogaeth o bob math i bobl ifanc bregus ar draws Gwynedd, yn trefnu Diwrnod Hwyl.

Bwriad y diwrnod yw rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned sy'n ein cefnogi ni mewn sawl ffordd drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn gwneud hynny drwy drefnu diwrnod llawn adloniant i bawb a fydd yn cynnwys nifer o bethau fel castell bownsio, sleid, stondinau gan wneuthurwyr lleol, bwydydd di-ri, perfformiadau amrywiol, celf a chrefft, wal ddringo Spider Mountain arbennig a llawer mwy!

Eleni, bydd y diwrnod yn digwydd ar ddydd Sadwrn, yr 22ain o Orffennaf, rhwng 11 a 4 ar gae pêl-droed Coed Helen dros yr Aber yng Nghaernarfon. Mae croeso i bawb felly dewch i gefnogi ac i fwynhau!

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cynnal stondin ar y diwrnod, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda Sara ar 01286 671153 neu sara.maredudd@gisda.co.uk. Edrych ymlaen i'ch gweld chi yno!

Sesiynau yn y Stiwdio - Robin Llwyd Jones



O gyfeilio ar y drymiau mewn gwasanaethau Ysgol Gynradd Bethel, i berfformio ar amryw o lwyfannau gyda Band Pres Deiniolen, yna chwarae a chyfansoddi gyda Y Bandana, mae cerddoriaeth yn sicr wedi cael dylanwad mawr arna i. Yn gysylltiedig â hynny, yn Ysgol Brynrefail, datblygais ddiddordeb mawr mewn recordio cerddoriaeth yn enwedig yr ochr peiriannu a chynhyrchu.

Es i brifysgol LIPA i astudio Technoleg Sain ac yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y brifysgol (a'r flwyddyn olynol) cefais brofiad gyda cynhyrchwyr fel Mike Crosse, James Ford a Tony Platt a oedd yn ran mawr o lwyddiant bandiau megis Ben Howard, Arctic Monkeys a Bob Marley. Yn sicr, roedd hynny'n brofiad gwerthfawr a dylanwadol iawn a gynyddodd fy hyder wrth i mi ddechrau cynhyrchu pethau fy hun. Yn fwyaf diweddar, cynhyrchais albwm Bronwen Lewis ac albwm olaf Y Bandana. Fel cynhyrchydd, rwyf yn bennaf yn gweithio yng Nghymru mewn stiwdios fel Sain yn Llandwrog ac Acapela yng Nghaerdydd.

Erbyn hyn, rwy'n gweithio llawn amser fel Peiriannydd Sain gyda'r cwmni Rondo ond, drwy gynhyrchu ychydig cyn hynny yn llawrydd yn ogystal â gweithio fel Swyddog A&R, cychwynais brosiect Sesiynau Stiwdio Sain. Y bwriad yw i greu llwyfan i fandiau newydd y sîn gerddorol yng Nghymru arddangos eu caneuon, o sawl genre gwahanol, yr oll ar un CD. Y bandiau a'r artistiaid yw Rhys Gwynfor, Glain Rhys (y ddau'n dod o ochrau Bala), Bwncath (o ardal Caernarfon), Alffa (deuawd o ysgol Brynrefail), Hywel Pitts (yn wreiddiol o Lanberis) a Gwion Emlyn (ger Bethesda).

Roedd gig lawnsio'r CD ar y 30ain o Fehefin yng Nghaernarfon gyda rhai o fandiau ac artistiaid yr albwm ac mae'n bosib prynu'r albwm ar-lein drwy fynd i wefan Sain (www.sainwales.com) neu yn eich siopau cerddoriaeth Gymraeg leol.

Ers recordio'r albwm, mae bandiau fel Alffa a Glain Rhys yn bwriadu recordio mwy cyn diwedd y flwyddyn, ac ar hyn o bryd, rwy'n cymysgu albwm cyntaf Bwncath, ac yn edrych ymlaen i fwrw ati gyda'r gwaith!

Newidiadau i Gabinet Cyngor Gwynedd

Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, wedi cyhoeddi ei Gabinet newydd.

Mae tri aelod newydd i'r Cabinet: y Cynghorydd Craig ap Iago (Llanllyfni) fydd yn arwain maes Tai, Hamdden a Diwylliant; y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith (Y Felinheli) fydd yr Aelod dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan (Y Bala) yw'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant.

Bydd y Cynghorydd Mair Rowlands (Bangor – Menai), sydd hefyd yn Ddirprwy Arweinydd, yn cymryd yr awenau dros faes Cefnogaeth Gorfforaethol ac mae'r Cynghorydd Ioan Thomas (Caernarfon – Menai) bellach yn gyfrifol dros faes Datblygu'r Economi.



Cyfrifoldeb y Cynghorydd Dafydd Meurig (Arllechwedd) fydd maes yr Amgylchedd; bydd y Cynghorydd Peredur Jenkins (Brithdir/Llanfachreth / Ganllwyd / Llanelltyd) yn parhau i fod yn gyfrifol am Gyllid; y Cynghorydd Gareth Roberts (Aberdaron)

yn parhau i arwain dros Wasanaethau Oedolion, a'r Cynghorydd Gareth Thomas (Penrhynudeudraeth) fydd yn gyfrifol am faes Addysg.

Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn: "Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda thim newydd y Cabinet wrth

i ni ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

"Mae gennym dim galluog, profiadol ynghyd ag aelodau newydd brwdfrydig. Byddwn yn ymroi i'r gwaith yn ddiymdroi."

Dyma restr lawn o aelodau'r Cabinet a'u cyfrifoldebau:

Swyddogaeth	Deilydd
Arweinydd y Cyngor	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol	Y Cynghorydd Mair Rowlands
Aelod Cabinet Addysg	Y Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Cyllid	Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Aelod Cabinet Amgylchedd	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi	Y Cynghorydd Ioan Thomas
Aelod Cabinet Oedolion	Y Cynghorydd Gareth Roberts
Aelod Cabinet Gwasanaethau Plant	Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant	Y Cynghorydd Craig ap Iago
Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith

Gwobr yr Academi Amaeth

Llongyfarchiadau i Rhys Griffith, Penisarwaun ar ennill gwobr Busnes ac Arloesedd yr Academi Amaeth eleni. Roedd dros 120 yn cystadlu mewn tri chategori am wobrau eleni.

Dywedodd yr Athro Wynne Jones, Cadeirydd panel dethol yr Academi:

Mae llwyddiannau'r ffermwyr, pobl fusnes a phobl ifanc sydd wedi cymryd rhan hyd yn hyn yn rhy niferus i'w rhestru, ond mae pob un ohonynt wedi cyflawni cymaint fel unigolion, yn eu busnesau a'u bywyd gwaith ac ar ran y diwydiant ehangach yng Nghymru.

Fel bob blwyddyn, rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu dangos uchelgais, ymrwymiad a ffocws, ond yn bennaf oll, rydym wedi dewis pobl yr ydym yn teimlo sydd â photensial i wneud y cyfraniad mwyaf i ddyfodol y diwydiant amaeth a chymunedau gwledig yng Nghymru."

Bydd yr Academi Amaeth yn cyfrannu at ddatblygiad personol pob ymgeisydd, gan roi'r sgiliau, yr hyder a'r rhwydweithiau iddynt allu datblygu eu busnesau eu hunain, boed hynny o fewn y busnes teuluol neu rywle arall.

Bydd aelodau'r tair rhaglen yn ymwneud allu o weithgareddau yn ystod y flwyddyn nesaf, yn cynnwys gweithdai, sesiynau hyfforddiant, cyfleon rhwydweithio a theithiau astudio i'r Swistir, Iwerddon a'r Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel.

Meddai Rhys, "Mae ceffylau gwedd wastad wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd, ac rwy'n lwcus iawn o fod yn rhan o fridfa ceffylau gwedd llwyddiannus, rhywbeth rwy'n parhau i'w ddatblygu ochr yn ochr â rhedeg y fferm."





Trafferthion Gwaith Dŵr Llanberis

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd agoriad swyddogol cynllun trydan Ynni Padarn Peris ar afon Goch wedi bod. Gofynnwyd i mi roi sgwrs fer am hanes defnydd dŵr yr afon, ac y mae hynny'n arwain at helyntion yr ymdrech i gael dŵr wedi ei bibellu i drigolion Coed y Ddôl bron i ganrif a hanner yn ôl.

Mae rhywfaint o ddogfennau ar gael yn croniclo hanes y gwaith, ond nid yw'n bosib darganfod y stori gyfan. Mae dyddiad sefydlu'r gwaith dŵr yn annelwig, ond mae adroddiadau ddiweddi y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cyfeirio at "about twenty years ago", sy'n rhoi dyddiad o gwmpas 1870. Mae rhai adroddiadau yn cyfeirio at Owen Ellis Owen "painter and plumber" fel yr un fu'n gyfrifol. Mae adroddiadau eraill yn nodi mai'r Cynghorydd D.P.Williams a weithredodd ar ran y plwyf i osod tanc 50 llath uwchben lefel y pentref a chysylltu'r tai efo peipen a thapiau arni; hyn ar gost o £30. Efallai mai Owen Ellis Owen fu'n gyfrifol am y gwaith pibellu.

Yn 1875 cafodd Owen Ellis Owen hawl gan Elusen Tlodion Rhuthun "to construct and maintain a reservoir and pipes". Y gost arfaethedig oedd £3750. Mae dogfen arall o 1877 yn nodi fod yr Owen Ellis Owen hwn wedi cael lês arall am 60 mlynedd gan Stad y Faenol i godi gwaith dŵr ar gyfer Gwesty Dolbadarn, ardal Pentre Castell, Bing a Blaen y ddôl, gan gynnwys yr orsaf rheilffordd. Mae'n ymddangos felly fod dau waith dŵr ar gyfer deupen y pentref.

Ond pwy oedd y perchnogion? Ym mis Hydref 1879 ceir adroddiad yn y North Wales Express yn nodi fod Capten Robert Roberts, Gwesty Dolbadarn wedi prynu'r gwaith am £1500. Ond does dim gwybodaeth am y cyn-berchennog a oedd fil a hanner o bunnau'n elwach o wneud hynny! Tybed a'i Owen Ellis Owen oedd hwnnw? Erbyn 1885 roedd Capten Robert Roberts wedi cael lês i ymestyn ei berchnogaeth o'r gwaith am 30 mlynedd arall, ond yn 1893 mae'n gwerthu'r cyfan i Harry Harwood, a dyna ddechrau'r trafferthion.

Mae'n ymddangos nad oedd cytundeb cyfreithiol rhwng y perchennog a'r pentrefwyr ynglŷn â hawliau'r naill na'r lleill, ac mai rhyw fath o gytundeb 'answyddogol' oedd rhwng Robert Roberts a thrigolion Coed y Ddôl. Roedd Harry Harwood yn berchennog Gwaith Nwy Llanberis hefyd, ac yn masnacha dan yr enw 'Llanberis Water and Gas Company Ltd.' Y gwir berchennog ar y cwmni oedd Harry Harwood, gydag aelodau o'i deulu a'i ffrindiau yn fân gyfranddalwyr. Un o Lundain yn wreiddiol oedd Harwood, ac wedi ymddeol o'r fyddin ar bensiwn a pharhau i ennill cyflog fel masnachwr gwirodydd a gwinoedd. Roedd wedi setlo yng Nghaernarfon ers tua deng mlynedd ar hugain, ac yn byw yn Penrhyn Villa, Uxbridge Square. Buddsoddiad i wneud mwy o elw oedd pryniant gwaith dŵr Llanberis iddo.

Roedd hwn yn gyfnod o newid. Roedd y cynghorau sir wedi eu sefydlu a hefyd y cynghorau dosbarth. Roedd deddfu wedi bod hefyd ynglŷn â rheolaeth gweithfeydd dŵr, gyda phwyslais ar lendid. Bu'n rheidrwydd ar gwmni Harry Harwood i wneud cais i'r Board of Trade i gael hawl i gynnal a darparu dŵr a nwy i'r ardal. Roedd sefydlu cytundeb cyfreithiol rhwng y Cwmni a'r cwsmeriaid yn rhan o'r cais, ond er na ddatgelir prisiau, mae'n ymddangos fod y dreth a argymhellai'r cwmni yn ddrud iawn: defnyddir y gair 'extravagant' yn aml gan wrthwynebwyr y cais.

Cynhaliwyd Festri Blwyfol Llanberis, gyda'r Cynghorydd D.P.Williams yn arwain, a phasiwyd i wrthwynebu'r cais. Roedd Cyngor Sir Gaernarfon a Chyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfaï hefyd yn gwrthwynebu. Aeth y mater i ymchwiliad, gyda'r naill ochr a'r llall yn gosod eu dadleuon. Roedd y Cynghorydd D.P.Williams dan lach cyfreithwyr y Cwmni Dŵr. Awgrymwyd ei fod yn gwrthwynebu'r cais am mai Sais oedd y perchennog, ac am nad oedd ganddo ef ei hun gyfranddaliadau yn y cwmni. Y prif ddadleuon dros wrthwynebu oedd:

- Y dylai'r gwaith fod dan reolaeth gyhoeddus megis un o'r awdurdodau lleol, ac nid er gwneud elw i gwmni preifat.
- Fod y gwaith presennol yn fychan ac anaddas ar gyfer y gofynion. Roedd 2,500 o bobl mewn 620 o dai yn ddibynol ar y cwmni am gyflenwad dŵr.
- Fod y dŵr yn aml yn cael ei lygru. Roedd tair o ffermydd uwchben y gwaith yn golchi eu defaid yn yr afon.
- Fod y trethi yn afresymol o uchel.

Ar y llaw arall, roedd y Cwmni yn dadlau ei bod yn fwrriad ganddynt i osod pibell 500 llath yn uwch i fyny na'r gronfa i osgoi'r posibilrwydd o lygru tra'n golchi defaid. I ateb gofynion y cwsmeriaid roedd y cwmni'n bwriadu adeiladu cronfa fwy ar gost o £4,000. Byddai cost y bibell a'r gronfa yn cyfiawnhau codi'r dreth.

Roedd Cadeirydd yr ymchwiliad ar ran y Board of Trade, rhyw Colonel Yorke, yn awgrymu cronfa a fyddai'n dal cyflenwad dau fis o ddŵr, ond cafwyd nifer helaeth o drigolion Llanberis yn tystio nad oedd angen ehangu'r gronfa o gwbl, gan na fyddai afon Goch byth yn rhedeg yn sych (newyddion da iawn i Ynni Padarn Peris dybiwn i).

Mor gynnar a mis Mawrth 1895 roedd Cyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfaï wedi datgan diddordeb mewn prynu'r Cwmni, ac yn fodlon talu'r pris a roddwyd gan Harry Harwood amdano ddwy flynedd ynghynt. Roedd yntau'n gwrthod datgelu'r pris hwnnw. Roedd hefyd yn gwrthod datgleu pris y byddai'n fodlon ei dderbyn am y Cwmni. Oherwydd hyn, ac yn enwedig oherwydd yr "extravagant rates", roedd Cyngor Gwyrfaï yn gwrthwynebu cais y Cwmni.

Yn ddiweddarach yn 1895 roedd y mater yn cael ei drafod yn Nhy'r Cyffredin, a phwysau o'r ddwy ochr i ddod i rhyw fath o gytundeb. Ond yna, ar ddechrau Hydref 1895 bu farw Harry Harwood. Roedd marwolaeth prif gyfrandaliwr Cwmni Dŵr a Nwy Llanberis yn golygu fod problemau, ac erbyn mis Mawrth 1896 roedd y Cwmni wedi ei lynu gan yr Holyhead and North Wales Gas and Water Company.

Fis ynghynt roedd Cyngor Gwyrfaï wedi derbyn bil am £98-5-5 o'r Bwrdd Llywodraeth Lleol, sef cost yr Ymchwiliad i'w gwrthwynebiad hwy i gais Cwmni Harry Harwood i'r Board of Trade. Mae'n ymddangos i'r cais gael ei dderbyn. Disgynnodd y gost hon ar blwyf Llanberis, a'i chyfrif fel "special expenses" na achosodd godiad yn y dreth blwyfol. O 1896 ymlaen, cwmni preifat arall oedd yn gyfrifol am gyflenwad dŵr Llanberis, ond stori i'w pharhau yw honno....

Englynion Bedd

I'r rhai ohonoch sy'n ddilynwyr Facebook, mae digonedd o grwpiau sy'n paratoi safleoedd ar gyfer rhai o ddiddordebau gwahanol. Un o'r rheini yw 'Englyn Bedd'. Mae aelodau'r grwp yn casglu englynion bedd o bob cwr o Gymru ac yn cynnwys lluniau o'r arysgrif, yr eglwys neu gapel ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ar gael. Yn naturiol hefyd, mae ymholiadau am fwy o wybodaeth am rai o'r englynion.

Roedd un ymholiad diweddar yn gofyn am fwy o wybodaeth am ddau englyn ar garreg fedd ym mynwent Llanddeiniolen. Er fod yr arysgrif yn datgan "gobaith o adgyfodiad gorfoleddus i gorph Margaret Edward o Fryn Madog", nid oes son am fywyd tragwyddol yn y ddau englyn; peth anarferol yn y cyfnod hwn ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Dyma ddau englyn cynnar, yn dyddio o Fawrth 1792, ac yn coffau gwraig John Jones, Ty'n y Mynydd, a fu farw'n ifanc, yn ddim ond 25 mlwydd oed.

Tymestloedd moroedd mawrion – y gefais

A gofid i'm calon.

Drwy'r lliodiog faith drallodion

Cu fwyn hedd caf yn fan hon.

Gado'n ol gwedi anwylyd – diamau

Da imi trwy mywyd

Iach eilwaith heb ochelyd

Briodi'r bedd, bradwr byd.

Mae'r englyn cyntaf, yn arbennig, yn deimladwy iawn.

Ond pwy oedd Margaret Edward o Fryn Madog, a pham mae ei gŵr yn cael ei enwi o Dy'n y Mynydd? A oeddent wedi gwahanu? Ac os felly, pam enwi'r gŵr ar y garreg fedd? Rhaid oedd chwilio yng Nghofrestrau Plwyf Llanddeiniolen am eglurhad.

Bu Margaret Edward farw ar Fawrth 16eg 1792 a'i chladdu ar Fawrth 21ain. Yn y Gofrestr Claddu enwir hi fel "wife of John Jones, Penrhallt", a dyna fwy o gymhlethdod! Dau gyfeiriad gwahanol i'r gŵr, a'r ddau yn wahanol i gyfeiriad y wraig.

Flwyddyn yn gynharach roedd rhyw awgrym o eglurhad. Ar Ionawr 16eg 1791 bedyddiwyd dwy ferch yn Eglwys y Plwyf: Mary ac Ann. Roedd Mary yn ferch i John David a Catherine, Penrallt. Ann oedd merch John Jones a Margaret, Bryn Madog. Tybed a oedd cysylltiad teuluol rhyngdynt?

Byddai Ann yn faban blwydd oed pan fu Margaret, ei mam, farw. Efallai i'r teulu symud i Benrallt at berthnasau, ac mai yno y bu Margaret farw. Dyna egluro cofnod y Gofrestr Claddu. Byddai'r garreg fedd a'r arysgrif, gan gynnwys yr englynion, wedi ei gosod rai wythnosau neu fisoedd wedi'r farwolaeth. Ac ar y garreg fedd honno, cofnodir cartref Margaret tra bu byw, sef Bryn Madog. Ac erbyn gosod y garreg ar y bedd, gallai John Jones, ei gwedd, fod wedi cartrefu yn Nhy'n y Mynydd.

Damcaniaeth yn unig. Ond os gwyddoch chi'n wahanol, yna cysylltwch.

Arwerthiant Stad Tan-y-bwlch, Maentwrog

Wyddwn i ddim o'r blaen fod gan y stad hon dir ym mro'r "Eco", ond diolch i Dafydd Guto am ddarganfod dogfen yn Archifdy Prifysgol Bangor, sef catalog arwerthiant ffermydd perthynol iddi ym mis Medi 1891; a'r arwerthiant hwnnw'n cael ei gynnal yng Ngwesty'r Grosvenor, Caer. Pa siawns fod unrhyw un o'r fro wedi teithio mor bell i chwilio am fargen!

Cae Poeth, Llanrug, oedd y fferm dan sylw. Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith fod y rheilffordd yn chwarae rhan mor bwysig ym

mywyd y fro bryd hynny. Mae'r disgrifiad o'r fferm yn pwysleisio fod dewis o ddwy orsaf o fewn cyrraedd hwylus iddi: 18 munud i Orsaf Pontrug (ar droed neu gyda cheffyl a throl, wrth gwrs) a 10 munud i Orsaf Pontrhyhallt.

Ond yr oedd rhywun lleol wedi penderfynu fod gwerth i'r fferm, ac wedi teithio i Gaer (ar y tren o bosib) i roi cynnig amdani yn yr arwerthiant. Ac fe'i prynwyd gan David Jones, Seion, Llanddeiniolen am £805.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
 22 BLWYDDYN
 O BROFIAD
 Ffôn- 01286 677668
 Symudol-
 07940023159
 Gladwyn Station Rd.
 LLANRUG, Caernarfon
 LL55 4AG
 E-bost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
 Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
 YR WYŶN LLEOL MWYAF BLASUS
 SELSIG CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

grid 76
 graphic design
North Wales
SIGNS
 Gogledd Cymru
 Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
 grid76.co.uk | 07766956673



Merched y Wawr Waunfawr
Yn ein cyfarfod mis Mai bu'n rhaid dibynnu ar ddoniau'r gangen unwaith eto oherwydd bod ein siaradwr gwadd wedi methu dod atom oherwydd salwch yn y teulu. Cawsom noson 'wigwam' gyda phawb yn eistedd mewn cylch a chyfle i glywed gwahanol aelodau'n siarad am ryw drysor oedd yn golygu llawer iddynt. Rydym wedi cynnal nosweithiau fel hyn o'r blaen a rhaid dweud eu bod bob amser yn ddifyr dros ben. Y tro hwn cawsom glywed am lythyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf, llyfrau oedd yn rhodd gan blentyn, a llun taid, ond cafwyd cyfraniad mwyaf anarferol y noson gan Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, a'n heriodd i adnabod gwrthrych rhyfedd iawn yr olwg oedd yn edrych yn debyg i lwy gam. Clywsom mai llwy i blant llaw chwith oedd hon, er mwyn eu gorfodi i fwyta gyda'u llaw dde, oherwydd dim ond wrth afael ynddi â'r llaw dde yr oedd y llwy yn troi i'r cyfeiriad iawn! Noson ddifyr iawn a diolch i Olwen am drefnu ar y funud olaf. Bydd ein gwibdaith ddiwedd blwyddyn yn digwydd nos Iau, Mehefin 22, a byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Forwrol Nefyn gyda swper yng Ngwesty Nanhoron i ddilyn. Byddwn yn ailafael ynddi ym mis Medi a chyhoeddir manylion ein cyfarfodydd yn yr Eco bob mis. Croeso i aelodau hen a

newydd.

Eglwys Sant Padarn

Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mai oedd: £30: Mrs Delyth Jones, Llys Eryri; £20: Mrs Sali Burns, Tŷ Capel Croes y Waun; £10: Mr Mike Rievolly, Rhwng Ddwy Ryd.

Yn Gwella Mae'n dda cael dweud fod Iola Llywelyn, Treganedd, yn gwella wedi iddi dorri ei braich tra ar ei gwyliau dramor. Baglu yn ei chartref wnaeth Mrs Ann Jones, mam yng nghyfraith Iola ac anafu ei phen glin. Mae'n dda ei gweld hithau yn gwella ac waedi cael dod adref o'r ysbyty.

Anfonwn ein cofion hefyd at Doctor Williams, wedi iddo anafu ei glun. Mae'n dda deall

ei fod adref o'r ysbyty ac yn cryfhau a gwella.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, a Gary Jones, Dôl Erddi wedi iddynt dderbyn triniaeth yno. Dymunwn wellhad i'r ddau ohonoch.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Gwelwyd wynebaw cyfarwydd ar lwyfan yr Eisteddfod, yn unigol ac yn aelodau o barti, côr a cherddorfa. Llongyfarchiadau iddynt a i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth deuawd chwythbrennau gyda Rachel sydd hefyd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Cawn edrych ymlaen yn awr i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn ac i'r Sioeau Amaethyddol. Dymunwn y gorau i'r rhai fydd yn cystadlu ynddynt.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig

Yn ystod mis Mehefin bu Mrs Lowri Dunn yn dathlu ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed. Dathlu ei phen-blwydd yn 92 oed fydd Mrs Margaret Owen ddechrau Gorffennaf, a pan ddaw mis Awst, Mrs Doris Roberts fydd yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr ichi a dymunwn ben-blwydd hapus iawn i'r tair ohonoch. Mwynhewch eich diwrnod arbennig.

Yn ystod mis Mehefin bu Auryn Merridue, Ynysoedd, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed, llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Priodas

Dydd Sadwrn, Mehefin 10, priodwyd Lowri Huws, Argoed, a Siôn Llywelyn Jones, Llwyn Bedw. Cynhaliwyd y gwasanaeth priodasol a'r wledd yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth. Er ei bod wedi glawio yn ystod y dydd fe wenodd yr haul am gyfnod a chawsant dynnu lluniau yn yr ardd ac ar lan y môr. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi ar eich priodas. Maent wedi ymgartrefu yn Preswylfa yma yn y Waun.

Diolch

Dymuna Mary, Llwyn Afon, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r cyfarchion caredig a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Yr Eco

Daw rhifyn nesaf yr Eco o'r wasg ddiwedd mis Awst. Dymunwn wyliau haf da i bob un ohonoch. Anfonwn ein cofion at y rhai o'r pentref sydd yn derbyn gofal yn eu cartref a chartrefi preswyl.

Anfonwn

gofion cynnes at Gareth Roberts (Brawd Emsyl) sydd wedi cartrefu yng Nghanolfan Fron Deg yng Nghaernarfon ac wedi setlo yn hapus yno.

Diwrnod diddorol i'r Teulu

Dydd Sul, Gorffennaf 2, am 10 o'r gloch y bore yn Garej Pant Waun. Glaw neu hindda.


Castell neidio, Peintio wynebaw, Gemau, Cyfle i ddyfalu ac ennill gwobr, Stondinau, Raffl, Paned a chŵn poeth a llawer mwy o weithgareddau diddorol.

*Dewch draw i weld ac ymuno yn yr hwyl.
Yr elw at Gylch Meithrin y pentref.*

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Gorffennaf

- 2: I'w drefnu
- 9: Mr John Roberts
- 16: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel
- 23: Parch Angharad Roberts, Trefor
- 30: I'w drefnu
- Awst: Dim Oedfa
- Medi 3: Parch Eric Jones

Llifogydd



Daeth glaw mawr ddechrau'r mis diwethaf a gwelwyd ymchwydd yn afonydd Saint a Gwyrfaï. Adfeddiannodd yr hen Lyn Bogelyn yng Nghwm y Glo (uchod) ei derfynnau- a mwy. Ac ar afon Gwyrfaï bu'n rhaid achub dau wersyllwr wedi i'w pabell gael ei sgubo i ffwrdd gan y llifeiriant. O fewn dau ddiwrnod cafwyd mwy o law nag a ddisgynnodd gydol fis Mai. Does ond gobeithio na fydd ail-adrodd gyda'r 'lli Awst' traddodiadol!

Palmwydd yn blodeuo

Eleni mae planhigyn a elwir gan rai yn fath o yucca, ond sydd mewn gwirionedd yn gynhenid i Seland Newydd, sef Cordyline Australis, yn blodeuo, a hynny o bosib am y tro cyntaf yn yr ardal hon ers nifer dda o flynyddoedd. Ac y mae 'Llên Natur' â diddordeb mewn darganfod gwybodaeth am y tro diwethaf iddo flodeuo yn yn hardal ni.

Mae'r lluniau yn dangos dau o'r planhigion hyn yn blodeuo yn Llanrug, ac y mae gwybodaeth eithaf cywir o'u hanes ar gael. Fe'u prynwyd mewn potiau tua 1998 a'u plannu allan yn 2001. Mae posibilrwydd, ond nid sicrwydd pendant, iddynt flodeuo yn fuan wedyn. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach a gwywodd y ddau fel nad oedd dim ohonynt ar ôl. Ond trwy gyd-ddigwyddiad ffodus, gwelwyd eitem am y planhigion ar raglen 'Gardeners World'. Roedd y rhaglen yn trafod y math hwn o wywo, ac yn argymhell gadael i'r planhigyn fod oherwydd gobaith y gallai ail-afael. Ac felly y bu. Tyfodd yn ôl – ac eleni blodeuodd. Blodeuo am y tro cyntaf ers beth bynnag bymtheng mlynedd!

Beth sy'n achosi hyn? Mae'n ymddangos fod y planhigion yn ymateb yn ffafriol i aeafau mwyn neu gyfnodau o sychder. Eleni, cafwyd y ddwy ffactor hon: gaeaf mwyn a mis Mai hynod o sych.

Yn ôl canolfannau garddio, aeth y planhigyn allan o ffasiwn tua pymtheg i ugain mlynedd yn ôl, ond roeddent yn boblogaidd iawn mewn trefi glan y môr Fictorianaid nad oedd yn dioddef gaeafau caled ac oer. Mae enghreifftiau yn ardal Llandudno. Ar hyd arfordiroedd de Lloegr mae digonedd ohonynt, ac yno fe'u gelwir yn Balmwydd Torbay. Ond maent i'w cael mewn ardaloedd mewndirol hefyd; rhai ohonynt yn weddol uchel.

Dyma'r cais felly: oes yna rai eraill ym mro'r "Eco"? Ble mae nhw? Ers faint maent yn tyfu yno? Ac yn bwysicach o lawer, a wnaethant flodeuo cyn eleni? Cysylltwch â'r "Eco" i roi gwybod.



LLONGYFARCHIADAU



Sion Llwyd a Lleucu Evans Adran Bethel Llwyddiant Celf a Chrefft.

Daeth cryn lwyddiant yn unigol ac yn lifrau Ysgol Brynrefail i rai o blant y pentref yn Eisteddfod yr Urdd. Unwaith eto, rhaid oedd rhyfeddu at y safon aruthrol o uchel. Ymlaen i Fôn bellach, gobeithio.

RHAGHYSBYSIAD

Bydd Eisteddfod Bethel eleni yn cael ei chynnal ar 21ain o Hydref.

CLWB BRO BETHEL

Death y tymor i ben gyda'r wibdaith flynyddol. Tua'r gogledd-ddwyrain anelwyd eleni. Y prif gyrchfan oedd dinas Caer, ond ar y ffordd galwyd yn Nhrefynnon i ymweld â Ffynnon Gwenffrewi. Bu nifer o'r aelodau yn cynnal yr hen draddodiad o drochi dwylo neu draed yn y dŵr. Yn ôl yr hen goel mae'r dŵr yn llesol at afechydon esgryn. Ar y ffordd gartref cafwyd pryd o fwyd blasus yn y Tŷ Gwyn yn ardal Rhuallt. Cafwyd diwrnod braf o gymdeithasu a diolch i Mary Wyn ac Ann Elis am eu trefnu trylwyr. Diolch hefyd i Steve, gyrrwr cwmni Derfel Owen am ein tywys yn ddiraffferth a hwyliog. Cawn seibiant rwan nes ailgynnull ym mis Medi.

MARCHNAD BETHEL



Mae'r ymateb wedi bod yn dda ar ddydd Iau olaf y mis rhwng 3pm a 7pm. Gellir cysylltu gyda'r Cyng. Sion Jones ynglyn ag ymholiad stonidin neu dilyn gwefan Marchnad Bethel Market ar Facebook.

LLONGYFARCHIADAU


I Tomos Alun a Mabel ar ddathliad blwydd eu Priodas Aur. Tybed os ydynt yn cofio y Sadwrn draw yn Llangwyllog hanner canrif yn ôl. Ymlaen rwan i'r Deiamwnd.

CYMORTH CRISTNOGOL

Ar ran y cyd-lynwyr diolch i'r casglyddion selog ac yn arbennig i'r cyfrannwyr am eu haelioni eto eleni. Mae'n rhyfeddol fel mae cyfanswm cyfraniadau yn cynyddu yn flynyddol. Ar ddiwedd yr wythnos benodedig roedd y cyfanswm ychydig bunnoedd yn fyr o £1000.

O'R CYNGOR CYMUNED

Braf oedd croesawu Gareth Griffiths fel cyngorydd cyfetholedig, ac mae cwota ward Bethel/Seion bellach yn gyflawn. Er dadleuon cryf amgylcheddol gan y cyngor a thrigolion cyfagos rhoddwyd caniatad i godi pedwar tŷ 'fforddiadwy' ar y tir tu cefn i stad Bron Gwynedd. Roedd cryn anniddigrwydd fod darn o dir tu allan i'r ffin datblygu wedi cael caniatad. Ni ddaeth unrhyw wybodaeth i law parthed y safleoedd datblygu eraill yn y pentref. Hysbysodd y Cyng. Sion Jones y cyngor o'i fwriad i gario ymlaen â'i gynnig o sefydlu Cyngor Cymuned unigol i ward Bethel/Seion. Rhoddodd ei resymeg dros yr 'hollt' a chafwyd ymateb gan ambell gyngorydd. Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu â chymdeithas Un Llais Cymru i gadarnhau sefyllfa Cyngor Llanddeiniolen mewn unrhyw broses o newid. Nid oes gan Gyngor Llanddeiniolen unrhyw hawliau stadudol yn y broses, gan fod y penderfyniad yn nwylo yr etholwyr. Rhaid cael o leiaf 150 o etholwyr i gefnogi'r cais i fwrw ymlaen ag unrhyw newid. Datgelodd y Cyng. Sion Jones ei fod wedi cysylltu â'r Swyddog perthnasol yn y Cyngor Sir. Gan fod rhaid rhoi cyfnod penodol o 40 diwrnod o rag-rybudd bydd rhaid ail drefnu y Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd Goffa tan fis Gorffennaf.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

YR YSGOL GYNRADD



Llongyfarchiadau calonog i'r staff a'r disgyblion ar ôl ennill gwobr amgylcheddol rhyngwladol. Eisioes roedd yr ysgol yn dal y Wobr Efydd a'r Wobr Arian o dan gynllun Eco-sgolion. Rwan cafwyd y brif deilyngdod sef y Faner Werdd.

Mae 90% o ysgolion Cymru wedi cofresatru yng nghynllun Eco-sgolion sy'n ymwneud â gwella yr amgylchfyd. Trefnir y cynllun gan sefydliad Cadwch Cymru'n Daclus wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Prif bwrpas y cynllun yw ysbrydoli y disgyblion i arwain newid amgylcheddol yn eu hardaloedd drwy hybu byw'n gynaliadwy'n amgylcheddol a chefnogi'r syniad o gyd-ddibyniaeth pobl ar gyrraedd y nôd drwy ddinasyddiaeth byd-eang.

Rhai o'r themau sy'n gysylltiedig â'r cynllun – i fewn a thu allan

i'r ysgol – yw lleihau gwastraff, defnyddio ynni yn ddi-wastraff, trafnidiaeth, byw'n iach a rheoli sbwriel.

Yn arwain yr ymgyrch a lediodd at y llwyddiant oedd Pwyllgor Eco yr ysgol sef Owain Roberts, Mari Williams, Geraint Roberts, Hali Dooley, Alaw Roberts, Elin Gibson, Eban Moss, Llyr Elwyn, Iestyn Owen, Lisa Higginson ac Adam Davey. Buont yn arweinwyr diwyd, gan lwyddo i annog eu cyd-ddisgyblion i gynnal y themau dewisiedig.

Cafodd Bl.6 gyfle i gyd-weithio gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru mewn cyfres o weithdai.

Dysgodd y plant y rhan alto i'r gân 'Gweddi Hwyrrol' allan o'r opera Hansel a Gretel. Bydd y plant yn perfformio gyda cherddorfa yn Theatr Bryn Terfel, Pontio ar Fehefin 22.

CYDYMDEIMLO

Daeth yr 'hen alwad' bedair gwaith i gymuned Bethel yn ystod y mis.

Yn ei nawdegau bu farw Ruby Harrison, Bakhita gynt. Roedd yn adnabyddus iawn yn y pentref a bu am sawl blwyddyn yn aelod gweithgar ym mywyd Eglwys Llanddeiniolen. Cyplyswyd enw Trigger hefyd mewn sawl sgwrs cofiant. Bu cenedlaethau o blant Bethel yn ymlwybro at gae Bakhita I fwydo'r ceffyl annwyl.

Yn ddisymwth iawn wedi brwydr ddewr bu farw Susan Owen, Disgwylfa. O ardal Dyffryn Nantlle hannai Susan. Bu yn fam a nain gynnes, parod iawn ei chymwynas.

Yr un mor ddisymwth yn ei chartref yn Stad Tan-y-Buarth bu farw Sheila Roberts. Rydym yn cydymdeimlo a David, Lynn a'u teuluoedd yn eu colled lem. Cymeriad hoffus, parod ei sgwrs oedd Sheila. Bu'n gweithio yn Ferodo a hefyd am sawl blwyddyn yn boblogaidd iawn yn Ysgol Bethel.

Yna collwyd Michael (Meic) Roberts, Stad y Ddôl. Un o hogia Felin oedd Meic ond ymgartrefodd o a Jen ym Methel ers sawl blwyddyn. Cydymdeimlwn a Jen, Aled a Ceri a'u teuluoedd. Fel y dair arall wynebodd Meic y frwydr olaf gydag urddas. Daeth Meic yn gyfarwydd yn ei gyfnod olaf drwy ei fynych gerdded o gwmpas y pentref. Un arall parod ei gymwynas a sgwrs oedd Meic yn enwedig os deuai Everton I ddalgylch y sgwrs.

Pan sefydlodd Meic a Jen gwmini Delwedd, buont yn gefn i sawl mudiad, cymdeithas a chlwb lleol drwy sefydlu gwefannau iddynt – gan gynnwys yr Eco. Roedd Meic yn falch iawn fod y wefan â sefydlodd i Glwb Pel-droed Bethel wedi denu sylw byd-eang ym myd gwefannau clybiau pêl-droed.

Bu tipyn o drafod ar 'ymladdwyr' yn ddiweddar ond dyma enghreifftiau clodwiw o bedwar ymladdwr a wynebodd frwydrau afiechyd yn ddi-gwyn a thrwy eu hymdrech a gyfoethogodd fywydau eraill.

Er cof am Meic

I'w deulu cofir delwedd – o ŵr clos,
gŵr clên, glan ei rinwedd.
Un triw fu Meic i'r diwedd
gam wrth gam, heb newid gwedd.





Llwyddiant ysgubol i Ysgol Brynrefail yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-Bont ar Ogwr, Taf ac Elai 2017!

Bu Ysgol Brynrefail yn hynod llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd eleni gan ymddangos ar y llwyfan droeon ac ennill nifer fawr o wobrau yn ystod yr wythnos.

Pwy fu'n llwyddiannus?

Daeth nifer fawr o wobrau cyntaf i ran disgyblion yr ysgol eleni.

Nanw Llwyd o flwyddyn 8 lwyddodd i ennill y cyntaf o'r gwobrau cyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Chwythbrennau blynyddoedd 7 – 9. Da iawn ti Nanw!

Cyntaf hefyd fu hanes Owain Llestyn mewn cystadleuaeth hynod safonol yr Unawd Pres blynyddoedd 10 i dan 19 oed.

Rydym yn gwybod bod gennym offerynwyr anhygoel yn Ysgol Brynrefail a daeth hynny i'r amlwg eto pan enillodd Rachel Franklin yr Unawd Chwythbrennau blynyddoedd 10 i dan 19 oed.

Daeth Rachel yn ail hefyd ynghyd â Huw Williams blwyddyn 12 ar y Ddeuawd Chwythbrennau blynyddoedd 10 i 19 oed.

Mae Leusa Gwenllian blwyddyn 10 hefyd yn un o'r criw a ddaeth yn gyntaf gan ennill y gystadleuaeth llefaru unigol i flynyddoedd 10 i 19 oed.

Unigolion eraill a ddaeth i'r brig oedd Math Roberts blwyddyn 13 yn dod yn ail yng nghystadleuaeth y Fonolog blynyddoedd 10 i dan 19 oed a Magi Tudur blwyddyn 12 yn drydydd ar yr Unawd Merched blynyddoedd 10 i dan 19 oed.

Cafodd yr ysgol ei gosod yn ail mewn nifer fawr o gystadlaethau torfol – dyma nhw:

Ymgom blynyddoedd 12 ac 13 – Math, Gwion a Beca – ail am berfformiad gwefreiddiol.

Parti Bechgyn blynyddoedd 7-9 – ail – roeddech chi'n wych hogial!

Côr blynyddoedd 7-9 – hefyd yn ail ardderchog.

Band / Cerddorfa Ysgolion Uwchradd – mewn cystadleuaeth o safon hynod uchel daeth band yr ysgol yn ail.

Da iawn hefyd i'r Parti Lefaru Hŷn a ddaeth yn drydydd.

Dyma neges a anfonwyd at y staff a'r disgyblion gan Gadeirydd y Llywodraethwyr Mr Dafydd Roberts ar ddechrau'r hanner tymor yn dilyn Eisteddfod yr Urdd:

'Fe gafodd Ysgol Brynrefail llwyddiant ysgubol, gyda'r unigolion a'r deuawdau, y partïon, y côr, y grwpiau a'r band yn amlwg iawn ar y llwyfan. Mae cyrraedd llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn gamp ynddo'i hun, a does wedyn nemor ddim gwahaniaeth rhwng y safleoedd. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl staff a'r tiwtoriaid sydd wedi eu cefnogi a'u hyfforddi ar hyd y daith. Maent i gyd wedi dod â chlod mawr i'r ysgol.'

Diolch yn arbennig i Mrs Anwen Edwards a Mrs Lowri Roberts am hyfforddi'r partïon. Yn ychwanegol at hyn hoffem hefyd ddiolch i'r holl rieni a deithiodd i Ben-y-Bont ar Ogwr gyda'u plant ac i'r staff a fu yno'n cefnogi hefyd, ond yn bennaf oll - diolch i'r plant eu hunain am fod mor awyddus i gystadlu ac am roi o'i gorau trwy'r wythnos – GWYCH!

Cronfa'r Pensiynwyr - Enillydd y bêl bonws mis Mai oedd Mrs Heddwen Hughes gyda rhif 33. Llongyfarchiadau! **Eglwys Sant Padarn** Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd. Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant). Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul Bosra Dymuna aelodau'r Ysgol Sul longyfarch Magi Tudur, cyn-aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul, ar ei llwyddiant yn cipio'r drydedd wobwr ar yr Unawd Merched rhwng 15 a 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyferchir pawb arall a gymerodd ran yn yr Eisteddfod hefyd a chlodd mawr i ddisgyblion Ysgol Brynrefail a'u hyfforddwy. Y mae'r Ysgol Sul wedi ailgychwyn ers gwyliau'r Sulgwyn a gobeithir cael cefnogaeth nes bo'r ysgol yn cau. Gobeithir trefnu trip i'r Bala yn dilyn stori Mari Jones ym mis Medi. Dymunir gwyliau hapus a diogel i chi dros yr haf.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd Geraint Williams, Careb, a Rhian Williams, Clwt y Bont. Cynhaliwyd Miri Haf yn y Neuadd a diolchir i bawb a gefnogodd y noson er gwaetha'r tywydd garw. Croesawyd Elwyn Jones, Rhiwlas, atom gan obeithio y gwelwn efeto yn ein amrywiol weithgareddau. Bydd yr Ysgol Gymuned yn dathlu ei phen-blwydd yn 25ain yr Hydref hwn a gobeithir ail baentio'r ysgol a chael adnoddau newydd i'r disgyblion. Y mae Cyfeillion yr Ysgol a'r Pwyllgor Neuadd Gymuned yn gweithio'n galed i godi arian ar gyfer yr achlysur arbennig yma.

Dymunir diwrnod i'w gofio i Phyllis ar ei hurddo i'r Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Eisteddfod Bentref 5 Gorffennaf 17 Y mae ymarferion ar gyfer yr Eisteddfod yn cael eu cynnal ar nosweithiau Llun rhwng 6-7 i'r oed Cynradd ac o 7 ymlaen i'r Uwchradd a'r Oedolion. Dymunir derbyn Gwaith Ysgrifenedig erbyn Mehefin 22ain i Ann Ifans, Ffôn 872407. Gwaith Ffotograffiaeth, Cyfrifiadur, Arlunio, Gwaith Llaw a Choginio i'r Neuadd erbyn dydd Mawrth, Gorffennaf 4ydd. Cofiwch am y limrig a chreu brawddeg o'r enw BODEDERN.

Trefnwyd bws i Theatr Bryn Terfel, Pontio, Bangor nos Sul, Mehefin 18fed, i weld Bethan Gwanas yn cyflwyno Noson Lawen gyda Elfed Morgan Morris, Cordia, Côr Dre, Ensembl Seindorf Arian Deiniolen, Gethin Fôn a Glesni Fflur, Eve Goodman a'r Welsh Whisperers. Dymunir diolch i Liz am drefnu bws ac i Olwen Meredydd am y tocynnau - elw yn mynd at yr Eisteddfod Bentref.

Gwellhad Dymuna Dafydd, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y dymuniadau gorau wedi ysbaid yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir diolch am ofal sydyn y Paramedig a Staff Ysbyty Gwynedd. Gwerthfawrogir eich gofal amhrisiadwy. Gwyddom hefyd am gymdogion a ffrindiau sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd ac anfonir ein dymuniadau gorau atynt.

Llongyferchir Magi Tudur ar ei llwyddiant ysgubol gyda'r Piano gan lwyddo i basio Gradd 8 gyda Distinction. Hefyd llongyfarchiadau iddi ar dderbyn y drydedd gwobr ar yr Unawd Merched Blwyddyn 10-13 yn Eisteddfod yr Urdd.

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Dydd Mercher Mehefin 14eg cafwyd ymweliad gan PC Dylan Pritchard. Bu'n sgwrsio gyda'r dosbarthiadau yn eu tro yngl?n â diogelwch a diogelwch defnyddio'r WE. Diolch iddo am alw yma yn rheolaidd.

Sioe Mewn Cymeriad - Croesawyd Cwmni "Mewn

Cymeriad" i'r ysgol bawn Mercher, Mehefin 14eg, i gyflwyno Sioe Fathemateg am y mathemategwr o Fôn, William Jones. Roedd plant CA2 wedi cael pleser mawr yn gwranddo ar y cyflwyniad.

Tynnu lluniau -Galwodd Gwynant Parri yn yr ysgol fore dydd Mawrth, Mehefin 20 fed, i dynnu lluniau'r dosbarthiadau, yn ogystal â'r ysgol gyfan.

Ymweld â'r "Ysgwrn" -Yn dilyn ymweliad Gwion Hallam â'r ysgol yn ddiweddar trefnwyd i blant CA2 fynd ar ymweliad â chanolfan yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd dydd Gwener, Mehefin 23ain. Cawsant gyfle i gyfansoddi a bydd eu cynnyrch yn cael ei arddangos ym mhabeall Prosiect Cadwyn Heddwch Canolfan Llanystumdwy yn Eisteddfod Genedlaethol Môn ym mis Awst.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd - Cafodd Bl 6 gyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Mawrth, Mehefin 27ain. Dymunwn y gorau i Cynan, Robert, Alex, Ryan, Gerallt, Enid a Lauren pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym mis Medi.

Symud Dosbarthiadau - Roedd dydd Mawrth, Mehefin 27ain, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol. Cafodd pawb gyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth Meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen - Cynhelir

Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys nos Sul 2/7/17 am 6:30 o'r gloch. Bydd aelodau o Gôr Dyffryn Peris gyda'u harweinydd, Mr Dafydd Roberts, yn bresennol. Yn ogystal bydd cyfle i fwynhau eitemau gan Magi Tudur a phlant yr Ysgol yn ystod y noson, a gwerthfawrogwn eich cefnogaeth.

Mabolgampau - Gobeithir cynnal y mabolgampau bawn dydd Mawrth, Gorffennaf 11eg, am 1:30 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Croeso cynnes i bawb ddod draw i gefnogi'r plant. (Gorffennaf 12fed fel dyddiad wrth gefn os na fydd y tywydd yn caniatáu) Mae'r "Cyfeillion" wedi trefnu gwahanol bethau i godi arian i'r ysgol yn ystod y pnawn. Bydd cyfle i brynu raffl a diodydd ffrwythau ayyb, felly cofiwch fod croeso mawr i chwi yma a gwerthfawrogwn eich cefnogaeth i'r ysgol.

Tripiâu diwedd Tymor yr Haf - Dydd Mawrth Gorffennaf 18fed byddwn yn mynd i Sw Bae Colwyn am y diwrnod. Gobeithiwn am dywydd braf.

Ymddeol - Dyna fydd hanes Mrs Carol Jones ar ddiwedd y tymoryma. Mae Mrs Jones wedi bod yn athrawes gydwybodol a gweithgar iawn yn yr ysgol am 19 mlynedd! Rydym fel ysgol a chymuned yn diolch o galon iddi, gyda dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus iawn, bydd colled fawr ar ei hól.

Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, Gorffennaf 21ain. Dymunwn wyliau haf hapus a diogel i bawb.

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Hyn ac Arall

Ond i ni chwilio amdano, a chymryd rhyw gymaint o sylw ohono, cyfoeth naturiol sy'n llechu oddi tan ein trwynau

Ie! brwyn a gwair!

Ewadd annw'! Callia wir ddynd, Guto bach! Mewn difri calon rwan! Brwyn? Gwair?

Gadewch imi ddyfynnu:

'Wrth ddringo y llwybr i ben y Wyddfa, uwchben y Ceunant Mawr, y mae y teithydd yn dyfod yn raddol i olwg cwm dwfn a elwir y Cwm Brwynog. Y mae afon yn llifo drwyddo, a'i dyfroedd yn chwyddo llif rhaeadr y Ceunant Mawr.

Ceir yn y Cwm hwn gyflawnder o Wair y Rhosydd, yn gymysgedig ag amrywiol fathau o frwyn, ac y mae Gweinidog yr Efengyl (da iawn fo) yn eu henwi:

'...y *Juncus squarrosus*' (clamp o enw mawr rhyfeddol onide) neu Frwyn y mwsogl; *Scirpus caespitosus*, Frwyn cnwbwosgl y waen; *Schoenus nigricanus*, Brwyn du y gors...'

Griffith Tecwyn Parry, Llanberis, piau'r geiriau uchod, ac fe'i ceir mewn erthygl o'i eiddo yng nghylchgrawn Cymru yn y flwyddyn 1907.

Dywed hefyd bod 'y gwair a gynhyrcha y doldiroedd isaf yn gwbl wahanol o ran ansawdd, am ei fod yn anarferol o bur a meddal, a chynhwysa gan mwyaf y glaswellt rhagorol hwnnw a adnabyddir gan lysieuwyr wrth yr enw *Agrastis capillaris*, tra y mae hwn o nodwedd wahanol.'

Dalier sylw wedyn beth sydd gan Griffith Tecwyn Parry i'w gynnig ran enwau am y gwahanol amrywiaeth o laswellt sy'n tyfu ar lechweddau'r Wyddfa:

Glaswellt main y waen (*Aira coespitosa*), peiswellt y defaid (*Festuca ovina*), glaswellt mynyddig y waen (*Poa alpine*), a rhyw ychydig eraill, (a gwrandewch da chwi ar hyn!) y rhai (a dyf) yn yr iseldiroedd, lle mwynhant ddylanwad priodol yr haul, a meithder yr haf...'

Anialwch o le? Moelni? Noethni? Go brin! Nid ble bodola cynhesrwydd a'r awydd i fyw.

Gofidia Griffith Tecwyn Parry dros 117 o flynyddoedd yn ôl bod llysieuath yn ei gwahanol agweddau wedi colli llawer o'i ddi-ddordeb yn y plwyf wedi marwolaeth yr hen guides, a oedd yn gydnabyddus â'r gwahanol fathau o lysiau oedd yn tyfu ar yr Wyddfa... Ond yr mae yr oll ohonynt oddieithr un wedi gadael y byd hwn, ac nid oes dim ond ychydig iawn o'u gwybodaeth wedi ei gadael ar ôl; ond y mae un o'r goreuon ohonynt yn fyw, ac yn hen iawn, ac felly yn analluog i gofio ond ychydig mewn cymhariaeth. Yr un hwnnw yw Mr O. Owen, neu fel y gelwir ef gan ei gydnabod "Yr Hen Bont Rug" am mai o'r gymdogaeth honno yr oedd yn hanu.'

A'r flwyddyn 2017, ac wedi hynny?

Rhyw feddwl bod na eto ar dir y byw hen Bontydd Rug.

2017-2117?

Onid ydi o'n gyfle da i ddysgu ein ieuengctid ynghylch brwyn, hyd yn oed wair? Onid ein pobl ifanc ddylai arwain ymwelwyr ar yr Wyddfa, gan ddangos i'r holl fyd, gyfoeth naturiol rhen drwmpad o fynydd? Ia! Debygaf i! Nhw, welwch chi, ydy dyfodol ein gwlad, ac mi rydw i'n ffyddiog ddigon y gwelir 'r hen fynydd uchaf yng Nghymru yn cael ei drysori ganddynt, ac y byddant hwythau'n llawn eu gofal ohono.

Dafydd Gruffudd Ifan

Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarch Estynnwn longyfarchiadau gwresog i Catrin Heledd, Meini Gleision, ar dderbyn gradd BSc mewn "Biomedical Science" o Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn dilyn ei llwyddiant mae hi eisoes wedi cychwyn ar ei swydd yn y labordy yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod ar Fai 18fed cafwyd trafodaeth ar yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol yn Lerpwl. Yr oedd yr argymhelliad cyntaf dan y teitl 'Cawl Plastig' yn ymwneud â chadw ffibrau microplastig allan o'r moroedd a chytunwyd â'r argymhelliad hwn. Yr ail fater oedd 'Lliniaru Unigrwydd', sef codi ymwybyddiaeth ar effaith unigrwydd a phasiwyd i bleidleisio ar y manylion yn dilyn gwranddo ar y trafodaethau gan dair o aelodau'r gangen fydd yn ein cynrychioli yn y cyfarfod Blynyddol yn yr Echo Arena yn Lerpwl ar Fehefin 7fed.

Roedd y tridiau Mai 22, 23 a 24 yn ddyddiau cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch. Ymunodd nifer o'r aelodau â'r gwahanol weithgareddau. Roedd Anita Long yn rhedeg cwrs 'Shabby Chique'. Roedd y cwrs celf castio mewn clai dan ofal Pat Jones a'r trydydd cwrs oedd ffotograffiaeth.

Nos Wener, Mai 26, cafwyd noson o hwyl yn y rownd derfynol Boccia y Ffederasiwn yn y Ganolfan Llanberis wedi ei drefnu gan Carol Houston.

Nos Iau, Mai 25ain, aeth nifer dda o aelodau'r gangen i Debenhams, Bangor, lle cafwyd arddangosfa colur. Roedd Margaret wedi ei dewis i fod yn fodel ac fe gafodd pawb becyn colur i fynd adref. Noson dda a phawb wedi mwynhau.

Edrychir ymlaen nawr am y Trip Dirgel Blynyddol ar Fehefin 29ain a'r Sioe Grefft a Chynnyrch yn y Ganolfan Llanberis ar Orffennaf 8fed. Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn brysur yn coginio, gwau, gwnio, tynnu lluniau a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau ar gyfer y sioe. Mae croeso i bawb i ddod draw ar y diwrnod lle bydd paned i'w chael a stondinau gwerth chweil.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Gorffennaf am 5 yr hwyr

2: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

9: Parch Harri Parri, Caernarfon

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

16: Oedfa'r Aelodau

23: Mr Dafydd Iwan, Caethro

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



Ysgol Dolbadarn



Gardd Yr Ysgol

Cafwyd noson arbennig iawn er mwyn datblygu gardd yr ysgol yn ddiweddar. Daeth llu o rieni a ffrindiau yr ysgol ynghyd â staff yr ysgol a disgyblion at ei gilydd er mwyn cychwyn ar y gwaith o balu a chwynnu yr ardd. Mae rhan o fuarth yr Adran Iau wedi ei ddatblygu yn barod gyda chywaith peillio Blwyddyn 4 yn ogystal a'u gwaith Creadigol ar y cyd â'r Cyngor Celfyddydau. Hoffem ddiolch i Mr Emyr Jones am ei waith caled o adeiladu ffens yn yr ardd a chynghori'r ysgol ynghylch materion garddio. Mae cwmnïau lleol hefyd wedi cyfrannu yn hael tuag at yr achos gan gynnwys Pete's Eats a Spar Llanberis.

Caer Gylchu

Bu disgyblion Blwyddyn 2 ar ymweliad arbennig i Gaergyllu fel rhan o'u hastudiaethau ar yr amgylchedd yn ddiweddar. Cawsant groeso arbennig ac yr oeddynt yn awyddus i rannu eu profiadau ar ôl dychwelyd.

Chwaraeon

Bu gêm bêl-droed arbennig ar Gae'r Ddôl yn ddiweddar rhwng Ysgol Dolbadarn ag Ysgol Gwaun Gynfi. Yr oedd yn gêm gyffrous a phawb wedi mwynhau. Diolch i Ben Davies (cyn-ddisgybl) am ei waith arbennig o ddyfarnu'r gêm.



Ras Hwyaidd

Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at y ras hwyaid yn ddiweddar- gwnaethpwyd elw i'r ysgol o dros £1000 o bunnoedd a fydd o gymorth wrth ariannu gweithgareddau yr ysgol yn y dyfodol agos. Diolch arbennig i'r Rhieni a Chyfeillion yr ysgol am y gwaith trefnu.

Eisteddfod Yr Urdd

Bu i'r parti deulais gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn

ddiweddar- nid oedd llwyddiant y tro hwn ond mae'r ysgol yn ymfalchio yn fawr yn ymdrech ac agwedd y disgyblion. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto.

Hyrwyddo Hylendid- Ysgol Iach :

Fel rhan o ymgyrch Cam 5 Ysgolion Iach Gwynedd eleni, mae'r ysgol yn atgoffa disgyblion o bwysigrwydd golchi dwylo a glanhau dannedd yn ogystal ag arferion da o fwyta'n iach, yfed dŵr a chael digon o gwsg.

Becws Aberdaron

Fuoch chi yn Aberdaron yn ddiweddar? Mae'n werth mynd i weld yr adeilad to gwellt hynod sydd wedi ei adeiladu ar safle hen fecws Islyn. Ond beth yw'r cysylltiad ag ardal yr Eco? Wel, mae Megan Hughes, Daron, Llanrug (9 Rhos y Faenol, Llanberis cyn hynny) yn ferch i John ac Edith Jones a sefydlodd y becws gwreiddiol yn y 1930au. Rhyw bythefnos yn ôl, aeth Megan i gyfarfod arbennig yn yr adeilad newydd i lansio llyfr diweddaraf gwasg Carreg Gwalch yn y gyfres "Syniad Da". Mae "Bara o Ben Draw'r Byd" yn adrodd hanes Geraint a Gillian Jones yn ail-adeiladu'r becws o'r newydd a sefydlu busnes sydd bellach yn cynnwys siop a chaffi, yn ogystal â'r becws. Roedd Megan wedi cyfrannu llawer o atgofion, yn ogystal â llun neu ddau, ar gyfer y llyfr. Cafodd noson gofiadwy iawn, yn cyfarfod efo nifer o hen gyfeillion a rhannu llu o atgofion am ei phlentyndod yn Aberdaron.



Megan efo Geraint Jones, perchennog presennol becws Islyn, Aberdaron a Rhian Jones, awdur y llyfr.

Parhad LLANBERIS



Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrs "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Oedfaon Capel Coch am Gorffennaf

2il: Parchedig Dafydd Ll. Hughes 10yb a 5yh

9fed: Gweinidog 10yb; Oedfa Moli 5yh

16eg: Mr Gwilym Ch. Williams 10yb; Dim Oedfa 5yh

23ain: Mr Andrew Settatee 10yb; Dim Oedfa 5yh

30ain: Oedfa 10yb; Dim Oedfa 5yh

Awst

6ed: Parch Olwen Williams 10yb; Dim Oedfa 5yh

13eg: Mrs Nerys Griffiths 10yb; Dim Oedfa 5yh

20fed: Parchedig Cath Williams 10yb; Dim Oedfa 5yh

2ain: Gweinidog 10yb; Dim Oedfa 5yh

Dim byd tebyg - 2.00p.m. 19.5.17

Cefais yr onglau' roeddwn eisiau
a'r haul yn yr union le iawn,
'roedd llwyni y Mynydd mewn blodau
ysblennydd yng ngh'neswydd y pnawn.

Pistilloedd o hufen y ddraenen
a'r efwr yn eira dan draed,
cwilt lapis laswli'r ddaearen
nes ffrwydro fy meddwl a'm gwaed.

Eithin a'r fanhadlen fel ffowndri
yn tywallt eu tawdd hyd y rhos
a'r aur fflamboeth heb ei gabloi
yn llifo o'r bencydd i'r ffos.

Cymerais rhyw ddwsin o fframiau o'r cyfan,
gan gynnwys y glog
a'r llwyni, yn brifwyl o flodau -
ond yn goron - bwtias y gog!

Ond pan ddeuthym adref, ac edrych
ar ganlyniadau nhechnoleg gain -
di-fflach a fflat y clychau ceinwylch -
llaeth enwyn oedd hufen y drain!

Mae gennym eiriau fel "rhyfeddod"
a rhai disgrifiadol fel "paent"
ond mae pellter nefoedd a gofod
yn bod rhwng llun lliw, ac fel maent!

Norman Closs

Llanberis – 1950 ymlaen

Derbyniwyd y penillion hyn gan Liz Roberts, Bangor. Ei brawd, Guto Huws, Llandegfan a'u hysgrifennodd; y teulu bryd hynny yn byw yn Stryd Siarlot. Meddai Liz, "Mae Llanber, fel pob man arall, wedi symud ymlaen, ond mae atgofion fel hyn yn werth eu cadw." Oes mwy o drigolion a chyn-drigolion y pentref yn cofio'r cyfnod a'r cymeriadau?
A beth am luniau?

Trem yn Ôl

O ben 'Bryn Sbio' edrychaf yn syn
Ar bentref fy mebyd, wrth droed y llyn.
Yno, yn fachgen, mor braf oedd fy myd
Ar aelwyd hapus, gynnes, glyd.

Prin oedd yr arian, caled y gwaith,
Cadarn y bobl, cadarn yr iaith.
Parch at gymdogion, ysgwydd i'r llwm,
Dim byd yn ormod, dim byd rhy drwm.

Chwarae 'biliards' yn y 'Park Lane'
Yr ifanc yn dysgu oddi wrth yr hen.
Draw i'r pictiwrws am swllt a thair,
Pawb yn ddistaw, neb deud gair.

'Band of Hope' a'r Eisteddfodau
I gael gweld pwy fydda'r gorau
Parti Dolig yn y festri
Enw'r capel ar y llestri.

'Coed Doctor', 'Chwarel Glyn',
Cerfio arfau gyda ffyn.
Draw am 'sidings' a 'Tan y Pant'
I chwilio am nythod ger y nant.

Willie Hughes o 'Bron Eryri'
Gwerthu llefrith, fo a Stevie.
Mr Parry 'Midland Bank'
Hefo'i gi a'i het 'swank'.

Ernie Morris a'i gychod bach,
Plant yn nofio'n llon ac iach.
Sgotwyr plu yn castio'r bluen
Draw yn ddwfn, ymhell o'r heulwen.

Ger y llyn roedd tomen ludw
Ddim yn bell o garej Nedw.
Siop 'Dici' a'i sgidia drud
'Erw Fair', lle cwsg a phryd.

Siop 'Miss White' yn Stryd Goodman,
Rhen greaduras llawn ei ffwdan.
Siop 'Meirionfa' a 'Gwenfro Stores',
Mr Fisher yn ei 'plus forus'.

Wncwl Dic a'i gi bach ffyddlon
Safai ger y 'post' yn brydlon.
'Huws E.B.' a'i farclod gwyn
Sgwrsio gyda 'Dic Pen Bryn'.

Yn y bora, tua saith
Hogia'r graig yn mynd i'w gwaith,
S?n eu sgidia hoelion mawr
Yn taro'r palmant ar y llawr.

Yn y poncia ac yn y 'shed'
Gweithiai Bob a Wil a Ned.
Eu gwynt yn fyr, a'r dydd yn hir,
Rhaid i'r hogia ddal eu tir.



DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



Llongyfarchiadau mawr i ti, Ceinwen Jones, am ddod yn gyntaf yn Eisteddfod Yr Urdd yn addasu sgript cartŵn/rhaglen i blant o'r Saesneg i'r Gymraeg dan 25 oed, cael medal a thystysgrif. Da iawn chdi oddi wrth Nain a Taid a'r teulu i gyd.

Dymuna Nia Morris ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd, galwadau ffôn a'r holl negeseuon a dderbyniodd tra bu hi yn yr Ysbyty yn ddiweddar yn derbyn llaw driniaeth ac ar ôl ddychwelyd adref. Diolch o galon i chi gyd, gwerthfawrogi'n fawr.

Eglwys Sant Padarn Mae cyfeillion Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi trefnu noson er budd yr Eglwys ar Lawnt Gwesty Dolbadarn am 6.30yh, nos Fercher y 12fed o Orffennaf.

Bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal ar y noson ac fe fydd Rhostio Mochyn yn mynd ymlaen hefyd.

Pris bwyd 2 gwrw "Rhostio Mochyn" yw £8 (£3 i blant).

Mae mynediad i'r Ocsiwn am ddim, ond mae rhaid archebu ticedi Bwyd Rhostio Mochyn ymlaen llaw trwy gysylltu â Gwyneth Parry ar 872352 neu Alwena Hughes Jones ar 675190.

Croeso cynnes i bawb.

Diolch Dymuna John Llewelyn Williams, Pen y Golwg, werthfawrogi'r ymholiadau, rhoddion, cardiau a.y.y.b yn ystod ei waeledd yn ddiweddar. Diolch o galon.

Diolch Dymuna Margaret Ellen ddiolch i'w theulu a ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig ac hefyd am yr holl alwadau ffôn a chardiau a dderbyniodd ar ôl llaw driniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Gyda llawer o ddiolch.

Diolch Dymuna Rhianwen Jones ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Cai Owen, Ffordd Deiniol, ar ennill cytundeb gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Dyma ei gytundeb cyntaf a balch iawn ydym o weld ei lwyddiant ar y maes pêl-droed.

Cylch Meithrin

Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i Gronfa Ymddiriedolaeth ar ran pwyllgor a phlant Cylch Meithrin am eich rhodd hael o £600 yn ddiweddar. Mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio i archebu sied i wella yr ardal awyr agored. Mae hyn am wneud byd o wahaniaeth i'r Cylch.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



Llwyddiant Seindorf Ieuentid Deiniolen

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Fand Ieuentid Deiniolen yn ddiweddar. Dydd Sul y 11eg o Fehefin bu'r Ieuentid yn cystadlu mewn cystadleuaeth awyr agored i Fandiau Pres yn y Drenewydd. Roedd unarddeg band yn cystadlu o adrannau ieuentid, hyfforddi, ac adranau 4,3 a 2 a cipiodd y Band Ieuentid, o dan arweiniad Osian Tomos, y wobwr am y band ieuentid gorau ar y diwrnod a hynny am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Achos cryn falchder i bawb hefyd oedd gorffen yn 6ed yn y brif gystadleuaeth gan guro 5 o fandiau eraill o adrannau uwch. Derbyniodd y Seindorf Ieuentid ganmoliaeth uchel gan y beirniad Sarah Groarke — Booth am eu rhaglen. Roedd 35 o aelodau yn y band ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Dymunai Osian ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled cyn y gystadleuaeth, i bawb oedd wedi cynorthwyo i hyfforddi'r band a'r rhai fu'n gyfrifol am y gwaith trefnu. Dymunai'r pwyllgor ddiolch yn ogystal i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am y rhodd caredig tuag at gostau'r bws. Roedd llond bws unwaith eto o deulu a ffrindiau wedi teithio gyda'r band ieuentid a diolch iddynt am eu cefnogaeth.

Ond nid oes llawer o seibiant i'r aelodau wedi'r gystadleuaeth! Mae'r ieuentid wedi cael gwahoddiad gan y band mawr i ymuno â nhw wrth orymdeithio yng Nharfifal Deiniolen. Hefyd cyn yr gwyliau haf bydd y band ieuentid yn parhau i ymarfer tuag at gyngerdd mawreddog sydd ar y gorwel. Mae'r band wedi derbyn gwahoddiad i rannu llwyfan gyda Rhys Meirion, Côr Godre'r Aran, Meinir Roberts a Chôr Cyngan mewn cyngerdd yn Venue Cymru, Llandudno, ar nos Sadwrn y 9fed o Fedi. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr. Wedi hynny bydd y band yn troi ei golygon tuag at Gyngerdd Blyneddol Seindorf Arian Deiniolen sydd ar y 24ain o Fedi yn Theatr Seilo, Caernarfon ac yna ymlaen i Bencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru fydd yn cael ei chynnal mis Tachwedd yn Rhuthun. Llongyfarchiadau mawr i'r band ar eu llwyddiant yn y Drenewydd eto eleni a phob dymuniad da iddynt gyda'r holl ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn ymuno a'r band ieuentid neu'r band iau yn Neiniolen yna cysylltwch ag Osian ar 07717055639 neu drwy facebook Seindorf Arian Deiniolen.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
 Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
 Gwasanaeth Casglu a Danfon
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
 (01248) 671382 • 07935324193
 ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
 Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
 ar gael bob nos
 rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

Arian i Tŷ Gobaith

Gyda balchder mawr y cyflwynodd aelodau Côr Cofnod sic am ddwy fil o bunnoedd i goffrau Tŷ Gobaith, yr hosbis plant sydd yn gwasanaethu Gogledd Cymru ac wedi ei lleoli yn Nyffryn Conwy. Daeth Siona Hughes o'r Waunfawr, sydd yn nyrs yno, i dderbyn y rhodd. Mae'r elusen yn cynnig seibiant, gofal lliniarol a gofal nyrsio terfynol i blant a phobl ifanc. Maent hefyd yn cynnig cysur i deuluoedd mewn galar.



Y côr yn cyflwyno'r sic.

Lansio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru

Ddechrau fis Mai yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd, roedd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, yn lansio gwasanaeth gwe newydd sy'n cofnodi enwau lleoedd hanesyddol Cymru ac yn tynnu sylw at eu pwysigrwydd.

Adnodd arloesol sy'n unigryw i Gymru yw'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk>). Ceir yn y Rhestr bron 350,000 o enwau lleoedd, wedi'u casglu o nifer o ffynonellau, sy'n cynnig cipolwg hynod ddiddorol ar ddefnydd tir, archaeoleg a hanes Cymru. Mae'r enwau lleoedd yn y Rhestr yn adlewyrchu'r amrywiol ffurfiau a sillafiadau sydd wedi cael eu defnyddio ar hyd y canrifoedd, ac yn aml yn cynnwys elfennau sy'n cyfeirio at adeiladau, pobl a nodweddion archaeolegol neu

dopograffigol.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a fydd yn llunio ac yn cynnal y Rhestr ar eu rhan. Mae grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a grwpiau eraill sydd â diddordeb wedi rhoi cyngor ar ddatblygu'r Rhestr.

Pwrpas y Rhestr yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth gyfoethog Cymru o ran ei henwau lleoedd ac annog pobl i barhau i'w defnyddio oherwydd eu pwysigrwydd hanesyddol. Bydd y Rhestr yn tyfu a datblygu yn sgil ymchwil

newydd a bydd defnyddwyr yn gallu cynnig sylwadau hefyd i helpu i wella'r cofnodion.

Drwy gynhyrchu'r Rhestr hon, a threfnu iddi fod ar gael ar-lein yn ogystal â thrwy Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru, bydd y cyhoedd, ymchwilwyr a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol Cymru yn gallu cyfeirio'n hawdd am y tro cyntaf at gofnod cenedlaethol o enwau lleoedd hanesyddol sy'n seiliedig ar fapiau. O dan arweiniad statudol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru gymryd y Rhestr i ystyriaeth pan fyddant yn enwi neu ailenwi strydoedd neu adeiladau.

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug

01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Llygru'r amgylchedd: y broblem yn gwaethygu



Dridiau cyn Gŵyl y Banc ac yr oedd y llanast yma wedi ei gario a'i ollwng ger y goedwig wrth Cefn Du – a doedd dim posib beio ymwelwyr. Roedd yn amlwg fod y geriach yma wedi ei gario yno'n fwiadol gan rywun lleol digydwylbod.

Y bore wedi Gŵyl y Banc, ac yr oedd rhywun/rhywrai wedi clirio peth o'r sbwriel oddi yno, a gadael y gweddill yn dipyn taclusach! Ond yr oedd gwaeth ar y mynydd. Cyrhaeddais y copa yn fuan wedi naw y bore mewn niwl trwchus a glaw. Roedd rhywrai wedi bod yn gwledda yno y diwrnod cynt, ond yn rhy ddiog i gario eu sbwriel oddi yno, ac wedi ei hongian mewn dau fag plastig ar bostyn ffens. Roedd eisoes yn drewi. Ar y llawr o gwmpas roedd darnau o bapur lapio siocled a phaced o greision. Dyn a wŷr faint oedd wedi eu chwythu i bedwar ban gan y gwynt.

Wedi cario'r cyfan oddi yno ac astudio cynnwys y ddau fag, roedd yn amlwg fod y gloddestwyr anghyfrifol gyda mwy o arian nac o

synnwyr. Yn wir, teg gofyn os oedd ganddynt unrhyw synnwyr. Dyma gynnwys y ddau fag: 2 dun o Tesco Tuna Chunks – heb eu hagar; tun o John West Tuna steaks – heb ei agor; tun o Tesco Danish Ham – heb ei agor; paced (bron yn llawn) o Farmers Market Cherry Tomatos; Potel Heinz tomato sauce (bron yn llawn); Bocs o gaws Dairylea hanner llawn. Roedd y gweddill i gyd yn wag, sef: tun o John West sardines, Potel Gwrw Bragdy'r Gogarth, 2 baced o Chicken Noodles, 2 dun o Riga Gold (cig o ryw fath yn ôl yr arogl), Paced o Pistachios, Pacedi Creision (amryw), papur lapio Twix, Milky Way, Kinder Chocolate (amryw), Swedish Style Meatballs.

Ac yn dal y cyfan roedd bag plastig Europol Supermarket a bag plastig Lidl. Ac i rwbio halen yn y briw roedd y bag hwn yn cario'r neges "Keep Britain Tidy".



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 2ail Fai 2017

Dewis Swyddogion am y flwyddyn

Penodwyd yr is gadeirydd, Idris Thomas yn gadeirydd am y flwyddyn 2017/18, gyda'r cynghorydd Rhian Evans-Hill yn is gadeirydd.

Gyda y Cynghorydd Idris Thomas yn cadeirio, diolchwyd i'r Cynghorydd Elfed Williams am ei waith yn y gadair yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Trafod a Chymeradwyo Mantolen Ariannol 2016/17

Y prif wahaniaethau yw:

taliadau cyffredinol yn llai, ynghyd a rhoddion i fudiadau. Bydd taliadau gordaliad praesept llynedd yn codi i £1250 eleni a flwyddyn nesaf, ac mae'r balansau yn uwch gan nad ydym wedi talu eto am atgyweirio y cysgodfannau bws, na llenwi biniau halen.

O ochor derbyniadau, roedd y praesept a'r ad daliad TAW yn fwy, ond ad-daliad torri llwybrau yn llai yn dilyn toriadau.

Roedd pawb yn unfrydol ar gywirdeb y ddogfen a Derbyniwyd y Fantolen Ariannol o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2016/2017.

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Ebrill 2017

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cynllunio – Derbyniwyd llythyr yn ôl yn dilyn ein cŵyn am amser i edrych ar geisiadau cynllunio, a'r ffaith ei fod yn creu rhwystredigaeth i nifer o gynghorau cymuned a thref. Awgrymwyd pan fo yna geisiadau yn dod i law sydd angen trafodaeth hir, ein bod yn creu panel sydd yn gallu cwrdd i drafod y cais yn hytrach na cyngor llawn.

Bron Gwynedd – Adroddwyd fod swyddogion wedi bod yn ymweld a'r safle yn ystod y dydd tra roedd yr ardal yn ddistaw a heb geir, nid ydym yn gwybod eu penderfyniad eto.

Mast - Er fod y cyngor wedi gwrthwynebu'r cais yma gan ei fod ar gongl beryg, mae'r cais wedi cael ei ganiatau,

Golau Stryd Tan y Gaer – Dal i ddisgwyl i'r Cyngor Sir gysylltu.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Gallod, Fachwen – Codi Uned gwyliau newydd yn dilyn dymchwel y gweithdy presennol.

O Gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas – Mae angen symyd y Bin Baw Ci yn agosach at y giat ger y cae chwarae, a hefyd angen trwsio y bin arall.

Rhiwlas – Angen arwyddion 20 MYA ger yr ysgol ac wrth basio y maes chwarae oherwydd gor yrru yn yr ardal. Llythyru adran draffig y cyngor Sir.

Croesfan Gelligyffwrdd – Mae ceir yn pasio oddi mewn ar fynediad Gors Bach. Oherwydd diffyg llinellau gwyn ar y groesffordd, mae yr ardal yn le peryg pan mae ceir yn dod i fyny o gyfeiriad Eglwys Llanddeiniolen i'r groesffordd. Llythyru eto.

Penisarwaun – Arwydd loriau ger Tan y Gaer wedi troi, ac mae traffic a loriau trwm yn defnyddio y lôn i ddod allan ger Rhydau neu Ynys Iago ac osgoi y gwaith a goleuadau traffic ger Beran. Llythyr yn gofyn am droi yr arwydd yn ôl.

Deiniolen – Dymuna'r Cyngor ddiolch i Mr. Tecwyn Green a fu yn codi ysbwriel a tacluso ardal i gefn Fynwent Macpela a Cae Chware Y Bwthyn cyn Sul y Blodau pan oedd cynifer o bobol yn ymweld a'r fynwent. Diolch yn fawr Tecwyn. Hefyd, diolch i'r criw a fu yn gyfrifol am godi ysbwriel o Ddinorwig lawr i Ddeiniolen ar ddydd Llun Pasg. Diolch yn Fawr.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

NOS FAWRTH 16 O FAI 2017

Aelodau Ieuenctid

Teimlwyd fod gan yr aelodau ieuenctid lawer iawn i'w gynnig a bod angen eu hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Penderfynwyd cael cyfarfod â hwy ar ôl yr arholiadau i egluro hyn ac i drafod eu dyheadau hwy ac i ystyried rhoi prosiect penodol iddynt dros yr haf.

Llenwi seddi wag ar y Cyngor

Adroddwyd fod y Cyngor yn fyr o 4 aelod. Penderfynwyd llenwi'r seddau gwag drwy wahodd unrhyw un sydd â diddordeb i anfon eu henwau i'r Clerc.

Materion Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i gael estyniad un llawr i gefn Fferm Afonwy, Pontrug, gan gynnwys mân addasiadau i'r ffordd fynedfa / iard.

Llwybrau Cyhoeddus

Nodwyd bod angen symud ymlaen i gofrestru 3 llwybr newydd yn Llanrug ond bod angen map safle o'r llwybrau ar raddfa 10,000:

1. Cytunwyd i geisio cael cydweithrediad Cyngor Gwynedd i gael mapiau i'n cynorthwyo.

Adroddwyd fod contractwr wedi cytuno i greu pont dros yr "afon bach" o Stad Glanffynnon i'r llwybr cyhoeddus.

Yn dilyn digwyddiad anffortunos ble ymosodwyd ar berson gan gŵn, cysylltwyd â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a chafwyd ymateb gan y Swyddog Llwybrau. Penderfynwyd cysylltu â'r Swyddog i ddiolch iddo am ei waith

Y Fynwent

Adroddwyd bod y fynwent mewn cyflwr da a bod y gwaith a amlinellodd Pwyllgor y Fynwent wedi ei gychwyn. Adroddwyd bod rhodd wedi'i dderbyn tuag at gynhaliath y fynwent.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac i anfon llythyr o ddiolch i'r rhoddwr ar ran y Cyngor.

Caeau chwarae

Penderfynwyd derbyn dyfynbris am drwsio'r wal rhwng maes chwarae Nant y Glyn a'r tai newydd.

Lleoliad Hysbysfyrdau'r Cyngor

Penderfynwyd lleoli un hysbysfyrdau ym maes parcio'r Ystorfa a holi os y buasai'n bosib cael caniatâd i osod un arall ym maes parcio Penbont

Maes Parcio ger Ystorfa Llanrug

Nodwyd mai lle i 6 o geir yn unig sydd i barcio yn y maes parcio ond fod 4 car yn parhau i barcio yno yn gyson dros yr amser a ganiateir. Trafodwyd nifer o ffyrdd ac opsiynau i ddelio â'r mater a chytunwyd i gysylltu â'r 'DVLA' i gael manylion perchnogion y ceir ac i gael trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol. Bydd angen cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol y Mudiad a llythyr cais i sylw

Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd. LL55 3LS

Bydd yn ofynnol i'r ceisiadau ddod i law erbyn Medi 30ain 2017. Ni ystyrir unrhyw gais ar ol y dyddiad yma.

Un funud fach ...

BUCKETHEAD AC ELMO

Er gwaetha'i enw, doedd fawr o obaith y byddai Howling Laud Hope yn Aelod Seneddol Maidenhead wedi'r Etholiad. Wedi'r cyfan, roedd Arweinydd yr Official Monster Raving Loony Party yn cystadlu yn erbyn y Prif Weinidog. Ond cafodd y creadur 119 o bleidleisiau. Y rhyfeddod oedd nad fo oedd yr olaf yn y ras; cafodd pedwar arall lai o bleidleisiau. Roedd yr olaf un wedi ei wisgo fel Elmo, un o gymeriadau'r rhaglen deledu Sesame Street.

Mae'n draddodiad ers sawl etholiad bellach i rai o'r cymeriadau lliwgar hyn herio'r Prif Weinidog a rhai o wleidyddion amlycaf Lloegr (yn bennaf). Un arall o'r dwsin a oedd yn herio Theresa May eleni oedd yr anenwog Lord Buckethead, a gafodd 249 o bleidleisiau. Mae'n amlwg fod gan yr ymgeiswyr brith hyn arian i'w sbario, gan fod pob un ohonynt yn colli'rernes o £500 y mae'n rhaid ei dalu i sefyll etholiad. Ond er mwyn cael munud o sylw ac oriau o hwyl, mae'r ymgeiswyr anobeithiol hyn yn barod iawn i ffarwelio â'u harian.

Go brin fod gan Hope na Buckethead bolisi o bwys. Cymeriadau syrcais ydyn nhw. Pobl sy'n hoffi tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Does wahaniaeth ganddyn nhw a'u tebyg faint o bleidleisiau gan nhw. Ac yn achos Elmo, diolch am hynny, gan mai 3 pleidlais yn unig a gafodd y creadur.

Ond nid ffwl anhysbys mo'r Elmo hwn wedi'r cyfan ond Bobby Smith, ymgyrchydd brwd dros hawliau tadau. Yn ogystal â sefyll etholiadau mae wedi cymryd rhan mewn mwy nag un brotest er mwyn tynnu sylw at ei ddaliadau. Beth bynnag a feddyliwn ohono a'i achos, ni ellir gwadu iddo lwyddo unwaith eto noson yr Etholiad i dynnu sylw at ei ymgyrch i ddod â hawliau tadau i sylw gwleidyddion. Doedd mwyafrif y gynulleidfa deledu ddim yn gwybod pwy oedd Elmo, ond gallwn fentro fod Mrs May a sawl gwleidydd arall yn gwybod i'r dim.

Hawdd iawn oedd chwerthin am ben Elmo a'i ddiystyru fel clown a oedd eisiau tynnu sylw ato'i hun, a methu â gweld yr hyn oedd dan yr wyneb (neu dan y wisg ffansi goch). Ac nid ar noson etholiad yn unig y mae tuedd i ni wneud peth felly. Mor hawdd yw peidio â gweld y person dynol wrth edrych ar gardodyn ar gornel stryd. Mor hawdd yw dibrisio aelod tawel mewn eglwys a chymdeithas, heb werthfawrogi'r rhuddin cymeriad a'r ffyddlondeb nad yw'n gweiddi am sylw. Mor hawdd hefyd yw canmol eraill i'r cymylau am eu gwaith a'u cyfraniad i fyd ac eglwys heb sylweddoli fod yr wyneb allanol yn medru cuddio rhagrith, twyll a llu o bechodau.

Edrychwn heibio i'r wisg allanol, boed fratiog neu raenus. Edrychwn heibio i'r hyn sydd ar yr wyneb. Edrychwn heibio i'r pethau y mae pobl weithiau am i ni eu gweld. Ceisiwn weld a gwerthfawrogi'r hyn nad yw'n amlwg ar yr olwg gyntaf. Ceisiwn weld, hyd y mae'n bosibl, yr hyn a wél Duw. Oherwydd, 'Yr hyn sydd yn y golwg a wél meidrolyn, ond y mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon' (1 Samuel 16:7).

JOHN PRITCHARD



CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Cynllun Efe yn hysbysebu am Weithiwr newydd

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe wedi bod yn brysur ers i Andrew Settartree adael ei swydd fel Gweithiwr Ieuencid Efe ddiwedd Chwefror wedi iddo dderbyn swydd newydd gydag Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Roedd Andrew wedi bod efo ni ers mis Hydref 2008, ac yr oedd yr Ymddiriedolwyr yn amlwg yn awyddus i barhau'r gwaith a cheisio penodi olynnydd iddo.

Yn wreiddiol, swydd am dair blynedd a roddwyd i Andrew gan Gynllun Efe, ond llwyddwyd i ymestyn y tair blynedd i wyth mlynedd wrth i ni lwyddo o flwyddyn i flwyddyn i gael cefnogaeth ariannol i'r gwaith. Daeth yr arian hwnnw oddi wrth enwadau a mudiadau Cristnogol, ymddiriedolaethau a chronfeydd Cristnogol, cynghorau cymuned a mudiadau lleol, eglwysi lleol ac unigolion sydd wedi cyfrannu'n hael at y gwaith. Yr ydym yn ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a gawsom dros y blynyddoedd, ac yn parhau i ddibynnu'n llwyr ar yr arian y mae'r cefnogwyr hyn yn ei roi i ni bob blwyddyn.

Ond byddai wedi bod yn fwy anodd cynnal swydd lawn amser oni bai am y cydweithio a fu rhwng Cynllun Efe a Trobwynt, elusen debyg i ni yn Llŷn ac Eifionydd dros y tair blynedd diwethaf. Cytunwyd y byddai Andrew yn rhoi hanner ei amser i Trobwynt, ac yr oedd Trobwynt yn naturiol yn rhannu'r gost o gynnal y swydd gydag Efe. Wedi i Andrew adael ei swydd, cawsom wybod nad oedd Trobwynt yn medru ymrwymo i barhau'r cydweithio. Roeddem yn deall hynny, ac yn gwerthfawrogi'r cydweithio a gafwyd.

Roedd yn ymddangos, felly, oherwydd ystyriaethau ariannol, mai swydd ran amser allai Cynllun Efe ei chynnal wrth chwilio am weithiwr newydd. Ond erbyn hyn, yr ydym wedi hysbysebu am Weithiwr Plant, Ieuencid a Theuluoedd LLAWN AMSER. Daeth hynny'n bosibl yn dilyn trafodaethau a gafwyd ag Eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru. Gyda chefnogaeth Caersalem a Scripture Union, yr ydym wedi mentro hysbysebu swydd lawn amser am dair blynedd.

Mae Caersalem wedi bod yn cefnogi Cynllun Efe yn ariannol ers sawl blwyddyn bellach. Mae hi ei hun hefyd wedi cynnal gweithwyr am ddiwrnod neu ddau i weithio gyda phlant ac ieuencid. Yr ydym yn falch iawn fod yr eglwys wedi cytuno i gydweithio â Chynllun Efe er mwyn cynnal Gweithiwr newydd. Bydd Gweithiwr newydd Cynllun Efe yn gwasanaethu eglwys Caersalem am ddiwrnod a hanner yn wythnos.

Mae Cynllun Efe wedi bod yn 'aelod cysylltiol' o Scripture Union ers sawl blwyddyn. Rydym yn ddiolchgar bod Scripture Union wedi ymrwymo i gyfrannu arian a fydd yn galluogi'r gweithiwr newydd i weithio am ddiwrnod yr wythnos i 'Genhadaeth trwy Chwaraeon' Scripture Union mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru yn ogystal â'r ardal hon.

Bydd y gweithiwr newydd yn treulio gweddill yr wythnos yn ardal Efe; ond gan ein bod yn rhagweld cyfleoedd i'n grwpiau CIC wneud pethau ar y cyd â grwpiau ieuencid Caersalem, a hefyd yn rhagweld y bydd rhywfaint o waith y Genhadaeth trwy Chwaraeon yn cael ei wneud yn yr ardal hon, bydd yn naturiol beth hyblygrwydd i'r patrwm hwn.

Mae'n ddatblygiad cyffrous iawn, ac mae Ymddiriedolwyr Efe, eglwys Caersalem a Scripture Union, yn gweddio y llwyddwn i benodi person addas. Yn amlwg, mae gwahanol agweddau'r swydd yn golygu y byddwn yn chwilio am berson sydd â sgiliau a diddordebau penodol. Mae'r hysbyseb i'w gweld ar wefan a thudalen Facebook Cynllun Efe. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd olaf Mehefin.

Y gobaith yw y gellir penodi'r gweithiwr newydd ddechrau Gorffennaf ar gyfer cychwyn yn y swydd ddechrau Medi.

JOHN PRITCHARD



Ar ben arall i'r lein

Sgwn i faint ohonoch sydd wedi darllen cyhoeddiad Cyngor Gwynedd o ddarlith flynyddol Llyfrgell Penygroes a roddwyd yn ystod Tachwedd 2002 gan Huw Geraint Williams, y Milfeddyg o Bontllyfni, dan y teitl 'Tros Fy Ysgwydd' ble mae'n cyfeirio at y 'sgota diguro oedd i'w gael ar yr Afon Llyfni yn ystod y 1950'au, gyda un llun yn cael ei ddisgrifio fel 'tri deg un o winaid a chwe brithyll wedi eu dal ym Mhontllyfni ar li Awst 1950'. Mae ein diolch fel Cymdeithas yn fawr i Huw am ei fod, tros y blynyddoedd, wedi cadw lluniau o'r pysgod a ddaliwyd yn ogystal â rhai o'r hen 'sgotwrs oedd yn troedio'r glannau. Yn yr un modd mae Elfed Roberts, Penygroes, hefyd wedi gwneud yn sicr nad yw pethau yn mynd yn angof.

Mi fyddaf innau hefyd ar adegau yn hoffi taro golwg tros fy ysgwydd ar be 'rydym fel Cymdeithas wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd, yn enwedig drwy sicrhau fod hawliau pysgota lleol ar gael i drigolion lleol. Dechreuodd yr ymdrech yma yn 1908 pan sefydlwyd Cymdeithas Bysgota Ardal Caernarfon. Sgwn i be fuasai'r hen griw yma yn ddweud heddiw am sut mae pethau wedi troi allan? Ond cofiwch, fuasai llawer o be sydd wedi ei gyflawni ddim wedi bod yn bosib heb garedigrwydd a dealltwriaeth rhai ffermwyr a thir feddianwyr lleol. Ond i mi yn bersonol, y wobwr fwyaf oedd bod ynghlwm â'r trafodaethau a'r dilyniant o weld hawliau pysgota a thipyn go lew o diroedd stadau y Faenol a Glynllifon yn dod yn ôl i ddwylo lleol.

Gyda'r gwaith o brynu be oedd yn angenrheidiol tu cefn, mae gwaith caled go iawn o'n blaen - fel sut mae sicrhau fod y Gymdeithas yn hyfwy i'r dyfodol. Un o'n syniadau sydd, erbyn heddiw, wedi troi allan i fod yn hynod llwyddiannus yw y llety hunan gynhaliol ym Melin y Cim, Pontllyfni. Gyda'r morgais ar y lle ar ben ymhen rhyw ychydig fisoedd mae' bosib edrych nawr i'r dyfodol gyda'r hyder ein bod gyda sicrwydd o incwm os buasai rhywbeth yn digwydd i ddifetha'r pysgota. A dyna fu bron digwydd gyda'r problemau oedd yn amgylchynu Llyn Padarn ar Afon Seiont ers bron i 25 mlynedd. Ond, diolch i'r drefn, mae Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru o'r diwedd yn cydweithio ac mae pethau yn dechrau gwella. Ond yn sicr drwy ystyried y llecynnau delfrydol ac unigryw sy'n mherchenogaeth y Gymdeithas, mae'n werth cysidro troi ei meddyliau at ddatblygiadau pellach yn y maes twristiaeth.

Dyna i chi tipyn o wybodaeth am gynlluniau'r Gymdeithas at y dyfodol, ond sut mae'r sgota hyd yn hyn eleni? Ar yr afonydd does dim llawer o gwbwl wedi bod yn digwydd heblaw, o'r diwedd, mae Padarn a'r Afon Rhythallt/Seiont yn dechrau cael gwared ag effaith problemau'r llyn, ac i ddweud y gwir mae'r dŵr yn rhedeg yn glir a gwely'r afon yn glanhau. Mae hefyd tipyn o sgota go lew wedi ei brofi ar y Stablau ar adegau, er bod y 'sgota o Bontrhythallt i'r môr o hyd yn araf dros ben.

Mae safon 'sgota'r brithyll brown ar lynnoedd Cwellyn, Nantlle a Cwm Silyn gyda brithyll yr enfys ar y Dywarchen wedi bod ac yn dal i fod yn eithriadol o dda, gyda'r cychod ar y Cwellyn, Nantlle a Dywarchen yn hynod boblogaidd. Ond, wrth gwrs, a oes lle difyrach i fod ar ddiwrnod a rhyw ychydig o wynt yn cynhyrfu wyneb y dŵr fel crib mân? Oes na rhywun y gorfod defnyddio crib mân heddiw 'dwch?

Ond fel bonws cofiwch mai dyma wlad y Tylwyth Teg, ac efallai y cewch y bonws o weld rhai ohonynt yn mwynhau eu hunain o gwmpas y lle. Mae rhai yn gofyn imi mewn difri 'wyt ti'n coelio yn y pethau 'ma'. Mi fydda i yn ateb 'siwr iawn'. Dwi 'di dweud o'r blaen hanes jwg y Tylwyth Teg a oedd yng nghwprdd gwydr fy nain yn Neiniolen pan oeddwn yn blentyn. Mae'r jwg yma gennyf i erbyn heddiw, a tydi pethau ddim fel y maent yn ymddangos chwaith! Os bydd galw mi wna i ailadrodd y stori rhyw dro.

Rhaid diolch i Elen Ellis, Bethel, am fy rhoi ar drywydd llyfryn ' Y Tylwyth Teg' gan John Owen Hughes. Mae'n anodd cael gafael mewn copi, ond tydi pob dim gwerth chweil yn anodd cael gafael ynddo, yn tydi? Darllenwch a cewch weld. A pwy ydw i i beidio â choelio'r hen bethau 'ma pan mae T.Gwynn Jones yn ei lyfr Llên ac Arferion Gwerin Cymru yn dweud: 'Er cof am fy nhad a wyddai ac a ddeallai'. A dyna ble mae'r eglurhad - i'r rhai sy'n deall, wrth gwrs. Cofiwch hefyd be ddywedodd T.H. Parry Williams - ei fod ddim yn coelio yn y Cyfryw Rai - 'ond mae'n nhw'n bod'

Troi'n ôl at y 'sgota - ac fel rhyw gadarnhad o sut mae pethau yn troi am wella, eleni mae gwerthiant tocynnau dyddiol ac wythnosol ar y llynnoedd yn dangos cynnydd o dros 90% ar yr amser yma yn 2016. Cofiwch mai tocynnau i ymwelwyr yw rhain, mae pysgota'n cynyddu mewn poblogrwydd dros Glawdd Offa, yma maent yn dod i fwynhau'r grefft. Yn anffodus mae pysgotwyr lleol yn llusgo eu traed - eisiau pysgota ond ddim eisiau cyfrannu at gadw pethau i fynd. Does eisiau gras hefo rhai yn does!

Bydd gwaith yn dechrau ar 10ed Gorffennaf i ail wneud rhai o'r pyllau i lawr y Finiog, mae'r contract yn debygol o fynd ymlaen hyd at ddiwedd y mis. Mi fydd rhyw ychydig o amharu ar y 'sgota - ymddiheuro'n llwyr am hyn ond bydd y gwelliannau'n gwneud y genweirio'n llawer mwy pluserus - a cynhyrchiol - dwi'n gobeithio!

Erbyn y tro nesaf bydd tro wedi dod ar bysgota'r gwyniaid ar eog a dwi'n addo na fydd dim mwy am yr hen bobol bach nac ysbrydion chwaith - wel am y tro o leiaf.

Hwyl tan mis nesaf.

Huw Price Hughes.

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Chwaraeon

BOWLIO'N DEG –AC ENNILL



Llanuwchllyn, Llanbryn-mair, Dyffryn Ceiriog – a Bethel. Ie, dyna enwau rhai o'r ennillwyr ar darian anfferth UAC Meirionnydd sydd ar y bwrdd o'm blaen ar hyn o bryd. Tarian a gyflwynir i bencampwyr bowlïo deg canghennau Gogledd Cymru o Ferched y Wawr. Felly, a'r mudiad yn dathlu ei Benblwydd Aur mae Pencampwriaeth y Gogledd wedi dod i Fethel. Denwyd 8 tîm o'r dalaith i ymgiprys yn y maes bowlïo deg ger Llanalhaearn. Ac roedd digon o haearn, ac annal gywir gan genod Bethel. Wedi i bob tîm gwblhau eu hergydion genod ni ddaeth i'r brig. Yn anffodus, ni fyddant yn cael symud ymlaen i gystadlu yn Ewrop, ond bydd cryn bwysau i adennill y tlws y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau felly i aelodau'r tîm : Falmai Owen, Mary Evans, Ann Elis, Mair Price, Eleri Warrington a Mary Wyn Jones.

A WELWN NI RWSIA?

Dyna'r cwestiwn ar wefusau cefnogwyr pêl-droed Cymru. Cafwyd pwynt gwerthfawr yn awyrgylch bygythiol Belgrâd, ond bydd rhaid ennill y pedair gêm sydd ar ôl i ymgiprys am ail-gyfle trwy orffen yn ail yn y grwp. Dwy gem i ffwrdd yn erbyn y ddau dim gwanaf a dwy adref yn erbyn Awstria ac Eire. Fe allai popeth ddibynnu ar y gêm olaf yn erbyn y Gwyddelod.

Eisioes rydynm wedi colli Bale am un gêm, a'r allweddol Joe Allen am gêm gyntaf Medi yn erbyn Awstria. Mae eraill o'r garfan gan gynnwys Ramsey hefyd ar gerdyn melyn. Mae'n allweddol fod y prif chwaraewyr yma ar gael. Serch hynny, rhaid canmol Coleman ac Osian Roberts am gynllunio dull o chwarae pan mae rhai o'r 'prif' chwaraewyr yn absennol. Heb Bale, roeddwn yn dal i greu cyfleuon. Yn anffodus, heb Bale, nid oes gennym chwaraewyr i sgorio'r goliau. Yn rheolaidd yn y gyfres yma o gemau, mae Vokes wedi methu sawl cyfle. Gobeithio bydd Robson-Kanu yn holltiach erbyn Medi. Neu ein bod yn troi at un o'r ymosodwyr ifanc, mwy cyflym. O gofio llwyddiant ysgubol y tymor diwethaf, gallwn ddychmygu beth fuasai dylanwad cyrraedd Rwsia yn ei gael ar statws y bêl-droed yng Nghymru. Amser a ddengys.

MOR ANFFODUS

Dros y ddau dymor diwethaf bum yn dilyn datblygiad rygbi Rhun Williams o fagwrfa Caernarfon, RGC, Gleision Caerdydd a Chymru dan 20. Oherwydd anaf a gafodd yng nghêm olaf y tymor i'r Gleision yn erbyn Stade Francais, ni allwn gloi pen y mwdwl ar ei dymor rhyfeddol gydag uchaibwynt pob chwaraewr rygbi Cymreig. Roedd Rhun wedi ei ddewis yng Ngharfan Cymru fydd yn wynebu Samoa a Tonga ar daith yr haf. Roedd wedi ei ddewis fel yr unig gefnwr pwrpasol yn y garfan, ac felly gyda siawns gwirioneddol o ennill cap llawn dros ei wlad. Dyna fuasai taith i Robin a'r teulu. Meddyliwch am fachgen o Lanrug yn rhedeg allan ar faes enwog Parc Eden yn Seland Newydd i ennill ei gap cyntaf. Gall byd chwaraeon fod yn hynod o greulon, a gobeithio y daw cyfle arall i Rhun wireddu ei 'freuddwyd'.

ENNILL A CHOLLI

Yn anffodus ni wireddwyd y gamp lawn Junior Cup i dimau dalgyloch yr Eco. Er eu curo yng Nghwpan Meditel colodd Waunfawr i Fônwysion Bro Goronwy yn y ffeinal. Serch hynny bu yn dymor llwyddiannus i'r Beganifs. Mae ganddynt garfan sefydlog ar gyfer y tymor nesaf a braf fuasai eu gweld yn diweddu yn uwch yn y tabl gynghreiriol. Collwyd gormod o gemau tymor diwethaf o un gôl. Ysgol ddrud yw ysgol brofiad. Daeth llwyddiant i dim merched dan 14 oed Bethel drwy gipio cwpan y gynghair. Yn amlwg mae llinell feithrin yma i fwydo'r tim hyn a gafodd dymor bur lwyddianus heb ddenu'r Brasso!

ATHLETAU UNIGOL ERYRI



Bedwyr Jones 2ail Clwydi, Gethin Hughes-Jones 1af pwysau, Cai Williams 4ydd 400m, Callum O'Donnell, Brett Parkinson 2ail Picell, Ffion Roberts 3ydd Naid Driphlyg, Ceri Jones 4ydd Picell, Natalie Meek 3ydd 300m, Abbi Parkinson 3ydd 800m 2ail Picell, Anya Williams 4ydd 100m 2ail 300m, Elen Williams 4ydd 200m.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR **DEWCS MAE O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Llundiau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

AVW **WORKSHOP** Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** **BOSCH Service** Car Service

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Tim Chwaraeon am oes.



Clwb Padl Fyrddio wrth sefyll – Bob Nos Fercher 5:00yh - 7:00yh yn Snowdonia Watersports – Y Glyn, Llanberis - £10 y sesiwn gan gynnwys offer a hyfforddwr.




Ysgol Gynradd Waunfawr – Diwrnod Tacluso Traeth Dinas Dinlle gyda Tim Chwaraeon am Oes i hybu ailgylchu a awyr agored



Roedd cystadleuaeth Beicio Mynydd Arfon yn Llanberis ddydd Gwener 9/6/17. Mae Gareth Roberts - Bryniau MTB wedi bod yn cynnig sesiynau beicio mynydd i ysgolion y dalgylch fel rhan o raglen gweithgareddau Tim Chwaraeon am Oes (5x60). Mwy o luniau ar Facebook/ Twitter

Ffarwel Elis Wyn



Daeth amser i ddweud ffarwel. Na, nid ymddeoliad on/off fatha Hogia'r Wyddfa: dwi'n mynd go iawn i ganolbwyntio ar Ganu a Hercan yn Salon. Diolch o galon am y Banter efo hogia Llanrug. Wnai byth anghofio y caredigrwydd a'r wên gan yr hogia Phillips yn y llinell gefn; y cyngor amrhisiadwy gan Eifion ar lle i roi fy fflag, a'r sibwrdd cariadus gan David Noel. Allai ddim enwi pawb ond dwi'n eich colli chi'n barod. Hwyl i Dafydd Arfon a'i Harem, da chi'n werth y byd, Wela'i chi ar y Maes neu yn y Steffdfod fis Awst. Cofiwch bod na le a chroeso i chi bob amser yng Nghôr Meibion Caernarfon.

OES Y NEWID

Diolch i haelioni ffrind cefais gyfle yn ddiweddar i fynd i wyllo y gêm griced undydd rhwng Lloegr a De'r Affrig ar faes Headingley, Leeds. A chael bod mewn 'bocs' drwy'r dydd yn byw fel 'lord'. Yr oedd yn brofiad pleserus, ac yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng gwyllo 'byw' a gwyllo'r teledu. Yr oedd yr awyrgylch yn wych, a hefyd gallu gweld meistrolaeth rhai o chwaraewyr gorau'r byd. Yn amlwg erbyn hyn mae rhai batwyr wedi datblygu eu hergydion a dull o chwarae fel eu bod yn gallu hawlio arian mawr drwy grwydro'r byd yn chwarae fersiynau byr o'r gêm – y T20 a'r 50 pelawd y batiad. Ni allaf ond rhyfeddu pan oeddwn yn gweld Stokes a Morgan yn taro ergydion o 90m am chwech oddiar fowlwyr oedd yn tanio pelennau 90mya. Roedd fy 'mat bach' i yn ei chael hi'n annodd i daro 6'au ar feysydd bychain y gogledd. Eto i mi, prif gôf y diwrnod oedd gwyllo dwy seren sef Joe Root ac A.B. DeVilliers. Dyma ddau nad ydynt yn y bôn wedi gor-addasu eu gêm. Maent yn dal i sgorio cyfanswm sylweddol drwy chwarae ergydion 'clasur'. Yn wir, yn aml mae Root yn cael ei hun allan pan mae'n ceisio 'slogio'. Newid arall yw safon y maes erbyn hyn. Cyflymdra y chwaraewyr o gwmpas y maes yn cystadlu a chyflymder y batwyr hyd y llain.

Yna'r cyfleusterau. Mae'n amlwg bod rhaid gwario yn sylweddol ar gyfleusterau bellach i ddenu gemau rhyngwladol. Rhaid wrth eisteddleuoedd moethus, y bocsus preifat, cyfleusterau bwyd a diod, ac yn wir yn rhai o'r prif feysydd erbyn hyn gwesty ar y safle. Nid hwn oedd yr Headingley 'dosbarth gweithiol' a fynychais i 20 mlynedd yn ôl. Ac yn sicr, nid oedd heddlu arfog yn cymysgu ymysg y dorf.

Ond erys hanes Headingley, fel pencadlys criced y Swydd Efrog 'balch'. O'n cwmpas darluniau'r arwy'r dyddiau cynnar heb anghofio Hutton, Trueman, Close, Illingworth ac wrth gwrs Boycott. Diddorol mai llun Geoffrey yw'r agosaf at y brif fynedfa. Wn i ddim os mai'r bwriad yw i groesawu'r ymwelydd gyda'r enigma yma, neu awgrymu fel gwnaeth sawl pwyllgor dros y blynnyddoedd y dylsid dangos y drws iddo. Yn fy marn i, roedd yn un o'r technegwyr gorau fel batiwr. Chwarae iddo fo'I

Ras Ieuentid yr Wyddfa

Mae pobl ifanc o Wynedd, Môn a Chonwy yn cael cyfle i gymryd rhan yn Ras Rhyngwladol yr Wyddfa yn yr hyn sy'n addo i fod yn ddiwyddiad llawn cyffro. Mae Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â Ras yr Wyddfa am y tro cyntaf eleni i roi cyfle i blant ac phobl ifanc i fod yn rhan o ddiwyddiad chwaraeon eiconig yng Ngwynedd.

Gyda noddwr newydd - Dr Zigs Swigod Arbennig rydym yn gobeithio croesawu dros 200 o redwyr iau yn Ras Ieuentid yr Wyddfa eleni. Bydd y rasy ieuentid yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn y 15fed o Orffennaf am 12:05.

Bydd y categorïau canlynol o dan 10, o dan 12, dan 14, dan 16, dan 18 a bydd y llwybrau yn mynd i fyny ar, neu ar lwybr yr Wyddfa.

Dan 10 – Grid Gwartheg

Dan 12 - Giat Ffarmwr

Dan 14 – Giat y Mynydd

Dan 16 - ¼ giât (gamfa)

Dan 18 – Pont Hanner Ffordd

£1 i gymeryd rhan. Mae gwobr ar gyfer pob merch a bachgen 1af, 2il a 3ydd ym mhob categori.

Mae ffurflenni cofrestru ar gael i archebu eich lle ar gais gan y Tim Chwaraeon am Oes. Bydd cofrestru ar y diwrnod yn y Ganolfan Gymunedol rhwng 10 a 11:30.

Dyweddodd Trefnydd Ras Ieuentid - Lisa Campbell yn dweud:

"Rydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth â Ras yr Wyddfa eleni ac yn ddiolchgar iawn i Dr Zigs am noddi'r Rasmus Iau. Mae Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd yn anelu at gynyddu nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol a gweithgareddau corfforol gan obeithio cyrraedd targed Chwaraeon Cymru fod pob plentyn yn 'gwirioni ar chwaraeon a chymryd rhan mewn gweithgaredd o leiaf 3 gwaith yr wythnos drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a chymunedau lleol i ddarparu cyfleoedd."

Mae'r ras yn cael ei ystyried fel un o'r mwyaf yn y byd o redeg mynydd, ac yn denu rhai o'r rhedwyr gorau yn Ewrop, felly, pa ffordd well i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf na chael cyfle gwych i gymryd rhan ar yr un cwrs â rhedwyr rhyngwladol i fod yn rhan o'r ras eiconig.

Am wybodaeth bellach neu unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â Tim Chwaraeon am Oes:

Lisa Campbell – Swyddog Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd

E-bost lisaelencampbell@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 677982



hun? Wrth gwrs, fel buasai unrhyw fatiwr ar unrhyw lefel yn cyfaddef os buasai'n onest. Roedd pob batiwr yn 'cyfrif' ei rediadau!

Ac un uchafbwynt arall. Roedd y criw gyda mi wedi fy ngosod i fyny. Ganol y pnawn daeth rhyw lais crand Seisnig yn holi 'Where is Richard Lloyd Jones?' Dechreuais boeni. Yna datgelwyd pwy oedd y llais. Neb arall ond Mike Gatting, cyn gapten Lloegr oedd yn crwydro'r bocsus gyda Phil de Freitas fel rhan o griw PR yr M.C.C. Cawsom sgwrs ddiddorol am rhyw 10 munud. Son am deithiau'r Ashes, ei ffræ gyda Shakar Raman y dyfarnwr, ac yn fwy pwysig lle'r 'tê criced' yn nhrefn criced presennol. Mae Gatting yn arwain ymgyrch i gadw'r tê traddodiadol. Mae rhai cynghreiriau yn ceisio diddymu y tê traddodiadol. Maent yn dweud fod yr amser tê yn ymestyn hyd y gêm yn ormodol. Hefyd mae diffyg rhai i baratoi'r fwydlen mewn sawl clwb erbyn hyn. Yna, ei fod yn rhy gostus ar ben y 'match fee' traddodiadol i chwaraewyr. Dwi yng nghwersyll Gatting fy hun. Beth gwell rhwng y ddau fatiad na bechdan wya chacen siocled! Gyda llaw, mae Gatting a minnau yn hynod debyg – o ran hyd a lled.

Ie, diwrnod i'w gofio oedd yr ymweliad â Headingley. Yn ôl I dorri'r allfaes yn Nhŷ Newydd rwan.

RHEDEG MYNYDD

Cafwyd mis llwyddiannus iawn i redwyr y fro, gyda sawl record yn cael ei thorri mewn gwahanol rasys yn Eryri.

Mae Ras 1,000 metr Eryri yn un o'r rasys hynaf yn yr ardal, ac yn parhau gyda gwahanol gategorïau i redwyr a rhai'n cario paciau. Mae'r ras fer o Ogwen i gopa'r Wyddfa wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros y blynyddoedd hefyd, ac yn y ras honno y profwyd llwyddiant lleol eleni, a'r cyfan yn ferched. Jenny Heming o Lanberis oedd y ferch gyntaf, gydag Ali Thomas (Llanberis) yn ferch gyntaf dros 50 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) y ferch gyntaf dros 60 oed. Torrwyd record y cwrs am y dosbarth oedran gan Ali a Maggie.

Yn gynharach yn y mis daeth Mathew Roberts yn fuddugol yn Ras Cader Idris, ac un arall o'r pentref, Sarah Ridgway enillodd adran y merched.

Mae rasys Nos Fawrth yn tynnu tua'r terfyn, ac yn anffodus, roedd yr "Eco" wedi mynd i'r Wasg cyn y ras derfynol yn Llanberis. Ond mae'n eithaf sicr y bydd enillwyr o'r fro. Mae Maggie Oliver (Dinorwig) eisoes wedi ennill yr adran i ferched dros 60 oed. Mae Ali Thomas (Llanberis), yn dilyn buddugoliaeth yn Ras Tal y Mignedd ac ail safle yn Ras y Garn, yn golygu fod y cystadlu yn adran y merched dros 50 oed yn dynn iawn. Mae Phil 'Tan' Jones (Waunfawr) hefyd yn agos i'r brig yn yr adran i ddynion dros 60 oed, gan offen yn gyntaf ar Y Garn ac ail ar Dal y Mignedd. Mae rhai o ieuenctid y fro yn gwneud yn arbennig o dda yn yr adrannau iau hefyd, ond bydd yn rhaid disgwyl tan rifyn nesaf yr "Eco" i gael y canlyniadau terfynol.

Llongyfarchiadau i Miranda Grant (Llanberis) ar dorri – na chwali! – record y merched yn Ras Tal y Mignedd, ac ar gael ei dewis i gynrychioli'r Alban mewn cystadleuthau rhedeg mynydd. A rhaid peidio anghofio'r rhedwyr ffyrdd.

Eleni, a hynny am y tro cyntaf ers blynyddoedd, cynhaliwyd ras

yn Llanrug, a hynny yn rhan o wythnos gweithgareddau'r Ysgol Gynradd. Ar nos Fercher hynod o wlyb, rhedodd dros 100 o blant gwrs 1 cilomedr, a mentrodd 40 o redwyr y ras 5 cilomedr – a'r amgylchiadau'n gwaethygu. Ond efallai fod y glaw yn rhan o'r hwyl i bawb!

Mae tim o Glwb Rhedwyr Eryri wedi cystadlu'n rheolaidd yn Ras Gyfnewid y Cestyll – nid yn llythrennol felly! Ras yw hon o Gastell Caernarfon i Gastell Caerdydd, sy'n cynnwys ugain cymal mewn dau ddiwrnod, ac ugain o redwyr ym mhob tim – dyna'r cyfnewid. Eleni roedd cynrychiolaeth dda o bentrefi'r fro yn y tim, ac yn cystadlu yn erbyn dros hanner cant o dimau eraill. Dyma'r rhedwyr lleol: Bethel, Arwel Lewis; Brynrefail, Sarah Harley; Deiniolen, Gavin Edwards a Dylan Jones; Llanberis, Ali Chant; Llanrug, Lee Davitt, Jason Parry Jones, Huw Owen, Rhian Thomas a Dyfed Thomas; Waunfawr, Llion Tegai. Mwy na hanner y tim yn dod o'r fro, a Sarah Harley yn ennill y cymal i ferched o Harlech i'r Bermo.

Cynhaliwyd Ras 10 cilomedr Deiniolen y noson cyn dyddiad cau yr "Eco", a daeth 120 o redwyr i gystadlu ar "y cwrs 10 cilomedr caletaf posib", gyda dwy allt eithriadol o serth i'w rhedeg. Yn wahanol i Lanrug wythnos ynghynt, roedd yr haul yn gwenu yn Neiniolen, ac ers cychwyn y ras rai blynyddoedd yn ôl mae'r pentref wedi bod yn hynod ffodus gyda'r tywydd bob tro. Braff hefyd oedd cael awyrgylch gymdeithasol yn ystod noson y ras: nifer helaeth o'r pentrefwyr yn cymeradwyo ar hyd y ffordd drwy'r pentref a digonedd o wirfoddolwyr yn stiwardio. O na bai pob ras yn cael cystal cefnogaeth.

Ac ymlaen am yr haf, a phenllanw rhedeg mynydd ym mro'r "Eco" gyda Ras yr Wyddfa ganol fis Gorffennaf. Siawns na fydd y gefnogaeth yno yr un mor frwd ac a gafwyd yn Neiniolen. Dymuniadau gorau i bawb o'r fro sy'n cystadlu.



Cychwyn Ras Deiniolen

Ras Gwynnos yr Wyddfa

Cafodd y ras ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl i ddathlu penblwydd Ras yr Wyddfa yn 40 oed. Ras 'unwaith ac am byth' oedd hi i fod, ond profodd mor llwyddiannus fel y cynhaliwyd hi eto'r llynedd ac eto eleni, gyda chynnydd yn nifer y cystadleuwyr. Eleni daeth 111 o redwyr i herio'r mynydd – ras i'r copa yn unig, ac nid rhedwyr lleol yn unig mohonynt. Daeth un cwpl yr holl ffordd o wastadeddau Norwich i ddringo i'r copa.

Roedd y tywydd yn fygythiol ar y noson, ond er gwaethaf y darogan, arhosodd yn sych, ac yr oedd pawb wedi cwblhau'r sialens cyn i'r genllif gyrraedd. Er hynny, roedd y tymheredd ar y copa yn 7C gyda gwyntoedd o dros 40 milltir yr awr. Diolch arbennig i'r caffî ar y copa am aros ar agor.

Y syndod dan y fath amgylchiadau oedd i'r record gael ei thorri, gyda Chris Arthur o Glwb Bowland yn cyrraedd y copa mewn 43 munud a 4 eiliad. Rob Samuel o Lanberis ddaeth yn ail. Roedd nifer o redwyr lleol eraill yn cystadlu.

Chwaraeon

Pedwerydd 'Dwbl'



'Mae gobaith am ennill y 'dwbl' eleni eto.' Dyna a ddywedwyd am dîm pêl droed dan 16 oed Llanberis yn rhifyn diwethaf yr Eco wedi'r siom o gollu yn rownd derfynol Cwpan Arfordir Gogledd Cymru am y trydydd tro. Erbyn hyn, gallwn longyfarch y tîm ar wireddu'r gobaith hwnnw.

Daeth y tymor i ben yn hwyrach na'r disgwyl (oherwydd prysurdeb arholiadau TGAU'r hogiau) nos Fawrth, Mai 30 gyda Rownd Derfynol Cwpan Cynghrair Gwyrfai rhwng Llanberis a Segontium Rovers. Roedd Segontium wedi cytuno i chwarae'r gêm ar Gae Ffordd Padarn, Llanberis am nad oedd modd cael cae 'niwtral' a diwedd swyddogol y tymor wedi hen fynd heibio.

Erbyn hynny, roedd Llanberis eisoes yn Bencampwyr y Gynghrair, wedi ennill pob un gêm y tymor hwn.

Er gwaetha'r ffaith fod amryw o chwaraewyr Segontium flwyddyn yn iau na hogiau Llanberis, y tîm o Gaernarfon a sgoriodd y gôl gyntaf. Daeth Llanberis yn gyfartal, cyn i Segontium sgorio ail gôl. Daeth Llanberis yn gyfartal eto, cyn i Segontium synnu pawb trwy fynd ar y blaen eto. Gyda rhyw chwarter awr yn weddill, roedd Llanberis – yn annisgwyl – yn colli o 3 gôl i 2. Ond o fewn ychydig funudau, roedd popeth wedi newid a Llanberis wedi sgorio tair gôl i ennill y gêm o 5 gôl i 3, gan sicrhau'r 'Dwbl' trwy fod yn Bencampwyr ac yn enillwyr Cwpan y Gynghrair.

Fel y soniwyd y mis diwethaf, mae cnewyllyn y tîm hwn wedi bod efo'i gilydd ers 12 mlynedd dan hyfforddiant eu rheolwyr Rodney Collins ac Adrian Roberts. Hon oedd y gêm olaf i'r tîm a'r rheolwyr. Amser a ddengys beth yn union fydd ar gyfer yr hogiau hyn y tymor nesaf, a faint ohonyn nhw fydd yn dal efo'i gilydd; ond mae cyfnod Rodney ac Adrian wrth y llyw wedi dod i ben. Unwaith eto, diolch yn fawr i'r ddau am eu holl waith caled ers iddyn nhw ddechrau hyfforddi'r criw o hogiau bach 5 oed sydd wedi datblygu'n chwaraewyr medrus dan eu gofal. Dan haul braf, yn y gwynt a'r glaw, yn y mwd a'r baw, mae'r ddau wedi gofalu bod yr hogiau wedi cael blynyddoedd o hwyl, lluo o atgofion a llond trol o dlysau. Diolch hefyd i Gerallt Morris am ei gefnogaeth yntau, a'i holl waith yn dyfarnu'r gemau dros y blynyddoedd.

Nid dyma'r tro cyntaf i'r tîm sicrhau'r 'Dwbl' gan iddo wneud yr un peth yn union y llynedd (tymor 2015–16, dan 16 oed) a'r flwyddyn cyn hynny (tymor 2014–15, dan 14 oed) a chyn hynny hefyd yn nhymor 2012–13 (dan 12 oed)! Mae'n amlwg fod unrhyw dîm sy'n ennill y 'Dwbl' 4 gwaith mewn 5 tymor yn dipyn o dîm. Nid tipyn o dîm, ond chwip o dîm oedd 'Tîm Rodney ac Adrian'.

Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau, a phob hwyl lle bynnag y byddan nhw'n chwarae'r tymor nesaf.



Tim Rygbi Ysgol Brynrefail wedi cael cit newydd gan noddwyr Tim Chwaraeon am Oes